



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Ddrafft 2018-19 Cynigion Manwl

Cyllideb newydd i Gymru

Hydref 2017

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru 33109, ISBN digidol 978-1-78859-776-0

Cynnwys

Pennod 1 – Cyflwyniad

Pennod 2 – Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Pennod 3 – Llywodraeth Leol

Pennod 4 – Cymunedau a Phlant

Pennod 5 – Yr Economi a'r Seilwaith

Pennod 6 – Addysg

Pennod 7 – Yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Pennod 8 – Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Atodiad A – Costau Gweithredu Deddfwriaeth

Atodiad B – Geirfa

Pennod 1 - Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddwyd *Cyllideb Ddrafft 2018-19, Cynigion Amlinellol - Cyllideb newydd i Gymru* gan Lywodraeth Cymru ar 3 Hydref. Mae'r Gyllideb hon yn garreg filltir bwysig arall yn hanes datganoli i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol - yn ogystal ag adlewyrchu'r pwerau trethu a benthyg newydd sy'n cael eu datganoli i Gymru, mae'r Gyllideb hefyd yn adlewyrchu proses newydd y Gyllideb a gytunwyd rhwng Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Yn unol â'r trefniadau hyn, mae'r Gyllideb Ddrafft amlinellol yn nodi o ble y daw cyllid Llywodraeth Cymru - y grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU, benthyg a threthi - a sut y bydd yn cael ei ddyrannu rhwng y gwahanol bortffolios Gweinidogol.
- 1.3 Heddiw, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynigion gwario adrannol manwl, gan ddangos sut y bydd pob portffolio'n dyrannu ei gyllideb yn unol â'r blaenoriaethau sydd i'w gweld yn ein rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen* a'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*. Mae'r cynlluniau manwl hefyd yn adlewyrchu Cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru.
- 1.4 Bydd pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar y cynigion manwl hyn dros yr wythnosau nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal cyfres o sesiynau ar draws Cymru i ddeall barn pobl am gyllidebu cyfranogol a'r ffordd yr ydym yn trafod y Gyllideb, yn arbennig o ran blaenoriaethau. Bydd y dystiolaeth a'r adborth yn ein helpu wrth ystyried ein cyllideb.
- 1.5 Er gwaetha'r toriadau difrifol parhaus i Gyllideb Cymru o ganlyniad i agenda cyni niweidiol Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus rhag effeithiau gwaethaf y cyni. Mae'r cynlluniau refeniw dwy flynedd a'r cynlluniau cyfalaf tair blynedd sy'n cael eu cyhoeddi heddiw yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i'n gwasanaethau cyhoeddus mewn cyfnod o gyfyngiadau gwaeth nag erioed ar wariant cyhoeddus, gan ddangos ein hymrwymiad i symud Cymru ymlaen a sicrhau ffyniant i bawb yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Pennod 2 – Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

- 2.1 Mae'r portffolio Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru drwy wella iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy fodloni'r tri amcan sydd i'w gweld yn *Ffyniant i Bawb*: darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol, hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb a chreu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell.
- 2.2 Mae'r prif grŵp gwariant (MEG) yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid i gefnogi iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chwaraeon cymunedol ac elitaidd. Ein nod yw sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a chyfeirio ein sylw at atal problemau yn hytrach na thriniaeth.


Cyllideb Ddrafft 2018-19

- 2.3 Yn 2018-19, mae'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn £7,647m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £7,231m o adnoddau, £295m o gyfalaf, a £121m o wariant a reolir yn flynyddol (AME).
- 2.4 Y cyllid dangosol ar gyfer 2019-20 yw £7,435m o adnoddau, £328m o gyfalaf a £121m o AME.
- 2.5 Cyllid cyfalaf dangosol 2020-21 yw £310m.

Prif feysydd gwariant

- 2.6 Mae'r siart isod yn dangos dyraniad cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf 2018-19 ar draws prif weithgareddau'r MEG.

Dosbarthiad Cyllideb DEL 2018-19 - ac eithrio AME



Cyllid y GIG

- 2.7** GIG Cymru fydd gwariant unigol mwyaf y llywodraeth hon o hyd, sy'n adlewyrchiad o'i werth i'r cyhoedd. Fel y gwelir yng ngweddill y DU, mae'n GIG dan fwy o bwysau nag erioed wrth i gostau a disgwyliadau'r cyhoedd gynyddu. Hefyd mae galwadau newydd, gwahanol ar wasanaethau iechyd wrth i ddemograffeg cymdeithasol newid a chyflyrau mwy difrifol a chymhleth ddod i'r golwg, y mae'n rhaid i'n GIG fedru dygymod â nhw.
- 2.8** Rydym yn parhau gyda'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau iechyd prydlon o ansawdd uchel drwy fuddsoddi £450m arall yn GIG Cymru dros y ddwy flynedd nesaf. Yn ôl tystiolaeth adroddiadau diweddar gan y Sefydliad Iechyd ac Ymddiriedolaeth Nuffield, byddai angen i'r gwariant ar iechyd gynyddu'n flynyddol er mwyn dygymod â'r boblogaeth gynyddol hŷn a mwy o achosion o gyflyrau cronig, fel diabetes. Drwy'r buddsoddiad ychwanegol hwn, rydym yn cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd Cymru yn y tymor canolig a'r tymor hir.
- 2.9** Yn unol â'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon, rydym yn arloesi'n gyson. Rydym yn cyflwyno triniaethau a gwasanaethau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion y cleifion, yn cael eu darparu yn y lleoliad cywir, a'u bod yn cyflawni *Ffyniant i Bawb*. Rydym yn parhau i symud y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal allan o'r ysbytai ac i'n cymunedau, a chyfeirio'r pwyslais at atal problemau yn hytrach na thriniaeth. Byddwn yn cynnal ein Cronfa Gofal Sylfaenol gwerth £42m i gefnogi datblygiad gwasanaethau lleol, wedi'u seilio o amgylch clystyrau gofal sylfaenol.
- 2.10** Drwy gydweithio ac integreiddio, byddwn yn parhau i fuddsoddi er mwyn sicrhau mwy o waith partneriaeth rhwng y sectorau iechyd a gofal

cymdeithasol. Byddwn yn buddsoddi £50m arall o gyllid refeniw'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn y Gronfa Gofal Integredig ym mhob un o'r ddwy flynedd nesaf, sy'n cefnogi modelau gofal blaengar.

- 2.11 Disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu cyllidebau cyfun mewn perthynas â darparu llety cartref gofal i oedolion o fis Ebrill 2018. Bydd y cyllidebau cyfun hyn yn help i gomisiynu mewn ffordd integredig, gan ganiatáu i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ganolbwyntio ar wella ansawdd gwell a sicrhau gwerth am arian.
- 2.12 Yn *Ffyniant i Bawb*, nodwyd fod iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Rydym yn parhau i glustnodi'r cyllid i fyrddau iechyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn gwarchod ein buddsoddiad yn y maes blaenoriaeth hwn. O'r £450m ychwanegol i'r GIG dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn darparu gwerth £40m o gyllid ychwanegol sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn unol â Chytundeb y Gyllideb. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu cymorth iechyd meddwl amenedigol arbenigol i gleifion preswyl ar gyfer mamau newydd a'u babanod yng Nghymru fel rhan o'r Cytundeb.
- 2.13 Mae'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg wedi bod yn bwysig wrth annog arloesi technolegol i ddarparu gwasanaethau iechyd mwy effeithlon ar gyfer y dyfodol. Mae'r ffordd hon o weithio'n cael ei phrif ffrydio drwy'r Fframwaith Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, ac mae canllawiau a disgwyladau clir wedi'u gosod ynghylch sut y dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd fod yn defnyddio technoleg i sicrhau effeithlonrwydd, gan ddefnyddio'u hadnoddau eu hunain. Cyhoeddwyd canllawiau hefyd i'r byrddau iechyd prifysgol yn dweud y dylid buddsoddi mwy dros y tair blynedd nesaf mewn arloesi, wrth ochr gwaith ymchwil a dysgu. Byddwn yn lleihau ein gwariant ar y Gronfa o £4m yn 2018-19 a 2019-20 er mwyn adlewyrchu'r disgwylad y bydd sefydliadau'r GIG yn defnyddio'u cyllid craidd i gefnogi arloesi yn y dyfodol.
- 2.14 Rydym yn parhau i sicrhau fod cyllid ar gael i ddarparu'r Gronfa Triniaethau Newydd gwerth £80m. Yn y gyllideb hon rydym yn neilltuo £16m i'r Gronfa yn 2018-19 a 2019-20 yn eu tro.
- 2.15 Gan adeiladu ar yr egwyddorion gofal iechyd darbodus sy'n cael eu defnyddio'n eang bellach i arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i gleifion, byddwn yn parhau gyda'n hymgais i wneud y defnydd gorau posib o'n buddsoddiad ychwanegol yn GIG Cymru drwy ganolbwyntio ar ddatblygu system gofal iechyd wedi'i seilio ar werth ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo sefydliadau'r GIG i weithio mewn partneriaeth gyda'r Consortiwm Rhyngwladol ar gyfer Mesur Canlyniadau Iechyd (ICHOM) i ddatblygu setiau data canlyniadau newydd ar gyfer cyflyrau fel clefyd yr ysgyfaint. Drwy gael gwell dealltwriaeth o'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion, gallwn dargedu adnoddau tuag at y gweithgareddau gofal iechyd sy'n effeithiol ar gyfer gwella'r canlyniadau hyn.
- 2.16 Defnyddiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'n helpu wrth gynllunio'n cyllideb ar gyfer buddsoddi yn y GIG. Fel y dywedwyd yn adroddiad y Sefydliad Iechyd yn 2016, mae cynaliadwyedd y GIG yn y tymor hir yn

dibynnu ar barhau i wella effeithlonrwydd y gwasanaethau, yn ogystal â chyllid ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn flaengar yn cydweithio ac yn gwella effeithlonrwydd mewn gwariant ar iechyd drwy sefydlu Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r Grŵp hwn wedi nodi amrywiol gyfleoedd lle gallai lleihau'r amrywiad yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ar draws Cymru wella effeithlonrwydd heb effeithio ar ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Un enghraifft o hyn yw'r canllawiau diweddar i'r GIG ar gamau i leihau'r costau sy'n codi i'r GIG wrth gyflogi staff meddygol dros dro.

2.17 Gan ganolbwyntio ar yr hirdymor mae GIG Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, hefyd wedi cymryd camau i wella cynaliadwyedd y drefn o gaffael cyflenwadau clinigol a gweinyddol, gan ddilyn ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft:

- Mae GIG Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, wedi sefydlu Grŵp Defnyddiau Traul a Dyfeisiadau Meddygol. Grŵp dan arweiniad clinigol yw hwn, gyda gweithwyr proffesiynol ymchwil, economeg a chaffael yn cyfrannu tuag ato. Mae'n adolygu arferion caffael ar draws GIG Cymru ar gyfer dyfeisiadau clinigol a defnyddiau traul sy'n cael eu defnyddio'n helaeth, er mwyn lleihau amrywiad a gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau drwy fwy o safoni.
- Gosodwyd Gwasanaeth Argraffu a Reolir ar gyfer practisau meddygon teulu ar draws Cymru. Bydd tua 6,500 o hen beiriannau argraffu yn cael eu disodli gan ddyfeisiadau modern sydd ag ôl troed carbon cryn dipyn yn is, er enghraifft bydd y defnydd o ynni yn gostwng dros 70%. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys ailgylchu cetrir peiriannau argraffu gwag.

2.18 Byddwn yn cadarnhau'r dyraniadau unigol ar gyfer byrddau iechyd lleol yn 2018-19 yn ddiweddarach yn yr hydref. Er mwyn helpu i sicrhau tryloywder o ran cyllid y GIG, rydym wedi sefydlu llinell wariant newydd yn y Gyllideb ar gyfer dyraniadau uniongyrchol eraill i'r GIG, a fydd yn cynnwys cyllid a ddosbarthwyd i gyrff y GIG y tu allan i ddyraniad refeniw craidd byrddau iechyd lleol. Mae'r gyllideb hon yn adlinio rhywfaint ar y llinellau gwariant presennol er mwyn sicrhau'r tryloywder hwn ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

Iechyd y Cyhoedd

2.19 Rydym wedi canolbwyntio ar atal a'r hirdymor, yn unol â'r ffyrdd o weithio sydd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwariant ar iechyd y cyhoedd. Rydym yn parhau i gynnal ein buddsoddiad o £88.4m yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn cyflawni ein hamcan o helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, atal clefydau y gellid eu hosgoi a sicrhau diagnosis cynnar o gyflyrau niweidiol.

2.20 Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi i atal clefydau y gellid eu hosgoi drwy ehangu'r rhaglen brechu plant rhag y ffliw i gynnwys blwyddyn ysgol ychwanegol yn 2017-18, a chyflymu'r gwaith o gyflwyno'r cynllun i bob plentyn oedran cynradd yn 2018-19. Disgwylir i hyn arwain at ostyngiad sylweddol yn

effaith y fflw ar iechyd y cyhoedd drwy atal nifer fawr o achosion o'r clefyd ymysg plant sydd wedi'u brechu yn ogystal ag ymysg babanod a phobl hŷn heb eu brechu mewn grwpiau risg clinigol wrth i ni weld llai o gylchrediad ac osgoi trosglwyddo'r fflw.

- 2.21** Wrth osod ein cynlluniau gwario ar gyfer 2018-19 a thu hwnt, rydym wedi adolygu'r gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer rhai meysydd iechyd y cyhoedd sy'n cael eu harwain gan y galw, gan gynnwys cyllid ar gyfer cynllunio at argyfwng a Cychwyn Iach. Rydym yn addasu'n cynlluniau gwario yn unol â'r cyfyngiadau ar y gyllideb; nid ydym o'r farn y bydd hyn yn cael unrhyw effaith berthnasol ar y rhaglenni hyn.

Addysg a Hyfforddiant

- 2.22** O 1 Ebrill ymlaen, bydd sefydliad GIG newydd - Addysg a Gwella Iechyd Cymru - yn cael ei sefydlu gan gymryd rhan flaengar yn comisiynu addysg a hyfforddiant gweithlu presennol y GIG, a gweithlu'r dyfodol.
- 2.23** Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn gwerth £95m i gefnogi amrywiol raglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys nyrsys, ffisiotherapyddion, radiograffwyr ac amrywiol gyfleoedd hyfforddiant gwyddoniaeth iechyd. Bydd y pecyn hwn yn galluogi dros 3,000 o fyfyrwyr newydd i ymuno â'r rhai sydd eisoes yn astudio rhaglenni addysg gofal iechyd ar draws Cymru. Bydd y myfyrwyr newydd hyn yn cychwyn yn 2017-18, ac rydym yn diogelu'r cyllid ar gyfer eu hyfforddiant yn 2018-19.
- 2.24** Mae cytundeb dwy flynedd y Gyllideb yn cynnwys £14m o gyllid dros 2 flynedd ar gyfer hyfforddiant meddygol israddedig yn y Gogledd a £2m ar gyfer hyfforddi 80 o nyrsys ardal newydd yn unol â'r modelau gofal newydd.

Cyllidebau Iechyd Eraill

- 2.25** Mae'r adran hon yn cynnwys rhaglenni iechyd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyllid craidd a ddyrannwyd i fyrdau iechyd lleol. Er enghraifft, mae'n cynnwys cyllid ar gyfer Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, sy'n darparu amrywiol wasanaethau cymorth gweinyddol i sefydliadau'r GIG, megis cyfrifon dyledus, recriwtio ac archwilio mewnol. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer costau setliadau gan Gronfa Risg Cymru mewn perthynas â hawliadau esgeuluster clinigol neu niwed personol yn erbyn sefydliadau'r GIG.
- 2.26** Drwy Gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, llwyddwyd i sicrhau dyraniadau rheolaidd ar gyfer gofal Diwedd Oes (£1m) a chyllid ar gyfer gwasanaethau Anhwylderau Bwyta a Dysfforia Rhywedd (£1m).
- 2.27** Rydym wedi adolygu'n cynlluniau gwario ar gyfer dwy raglen ar gamddefnyddio sylweddau:
- Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan - Mae'r rhaglen hon yn gweithredu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru gyda 95% o'r ysgolion yn cymryd rhan yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Ariennir y rhaglen ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru (£1.98m y flwyddyn) a'r heddlu (£1.34m y flwyddyn). Nod y rhaglen yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i wella'u gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, agwedd, gwerthoedd a sgiliau mewn perthynas â'r canlynol: camddefnyddio sylweddau; perthynas iach; ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol. Yn y tymor hir, rydym yn gobeithio cynnwys elfen camddefnyddio sylweddau y gwaith hwn fel rhan o'r cwricwlwm ysgol diwygiedig. O ganlyniad, bydd addysg a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y pwnc yn rhan o'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod gwaith ar gryfhau pobl ifanc ac atal problemau yn parhau. Felly rydym yn bwriadu diddymu'r rhaglen hon yn raddol yn ystod 2019-20, wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei roi ar waith.

- Ymgyrch Tarian - Rydym yn bwriadu gostwng ein buddsoddiad yn y rhaglen hon o 2018-19. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru i Ymgyrch Tarian dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn cydnabod bod peryglon ynghlwm wrth hyn, yn arbennig gan fod y rhaglen wedi bod yn rhan bwysig o elfen atal ein strategaeth 10 mlynedd ar gamddefnyddio sylweddau. Ymysg yr heriau eraill mae'r sylweddau seicoweithredol newydd sy'n cyrraedd y farchnad, lefelau marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau a'r sylw y mae'r agenda hwn yn ei dderbyn ar hyn o bryd yn y cyfryngau, ond fe fyddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu er mwyn sicrhau fod atal cyflenwad y cyffuriau yn parhau i fod yn gyfrifoldeb craidd i'r heddlu.

2.28 Er mwyn lliniaru effaith y newidiadau hyn, byddwn yn cynyddu'r dyraniad i fyrddau iechyd lleol sydd wedi'i glustnodi ar gyfer camddefnyddio sylweddau, er mwyn i ni gynnal ein buddsoddiad cyffredinol yn y gwasanaethau hanfodol hyn.

2.29 Rydym yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ein cynlluniau gwario ar gyfer ymchwil a datblygu mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn lleihau cyfraniad Cymru i'r rhaglenni sy'n cael eu rhedeg gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd yn Lloegr. Nid oes disgwyl i'r gostyngiad hwn yn ein cyfraniad gael effaith sylweddol ar fynediad ymchwilwyr Cymru at gynlluniau cyllido ymchwil ar draws y DU sy'n cael eu goruchwylio gan y Sefydliad.

2.30 Ar ben hynny, rydym yn manteisio ar y cyfle i ailflaenoriaethu cynlluniau cyllid ar gyfer 2018-19 ymlaen. Byddwn yn gwneud arbedion pellach i weinyddiaeth cynlluniau grant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n dychwelyd i Lywodraeth Cymru, lleihau'r cyllid sy'n cael ei neilltuo i gynlluniau partner drwy ymadael â'r cynllun Invention for Innovation, ac amsugno rhai gweithgareddau cymorth Doeth am Iechyd o fewn Canolfan Gymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Gwasanaethau Cymdeithasol

2.31 Rydym wedi pennu gofal cymdeithasol fel blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb*. Dyma'r cyfeiriad a osodwyd ers 2011 a lansiad *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, sy'n darparu ymateb strategol i'r

materion sy'n codi yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio, disgwyliadau uwch gan y cyhoedd a chyfyngiad ar dwf y gyllideb. Gwelwyd diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth a gwasanaethau er mwyn galluogi awdurdodau lleol a'r sector ehangach i ymateb i'r heriau hyn a gwella llesiant pobl Cymru.

2.32 Mae gwasanaethau cymdeithasol craidd yn cael eu hariannu'n bennaf drwy grant cynnal refeniw llywodraeth leol, sy'n rhan o'r MEG Llywodraeth Leol. Neilltuwyd £55m o gyllid rheolaidd yn 2017-18 drwy'r grant cynnal refeniw er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau rheng flaen, rhoi sylw i effaith y cyflog byw cenedlaethol a thargedu camau gweithredu yn y tri maes sy'n cael blaenoriaeth: y gweithlu gofal cymdeithasol, plant sy'n derbyn gofal, a gofalwyr. Neilltuwyd cyllid pellach drwy'r grant cynnal refeniw yn y gyllideb hon i gynnal gwasanaethau gofal cymdeithasol.

2.33 Yn unol â'n hymrwymiad i leihau'r baich ar awdurdodau lleol o weinyddu grantiau penodol, rydym yn trosglwyddo'r grantiau canlynol i'r setliad llywodraeth leol yn 2018-19:

- Grant Byw'n Annibynnol Cymru – gwerth £27m. Mae hyn yn dilyn trafodaeth gydag awdurdodau lleol ynghylch trefniadau a disgwyliadau am becynnau gofal. Mae'r swm hwn yn adlewyrchu'r un lefel o'r gyllideb a drosglwyddwyd yn wreiddiol i Gymru oddi wrth Lywodraeth y DU.
- Ystadau diogel - gwerth £0.39m yn 2018-19, gan ostwng i £0.37m yn 2019-20. Rydym o'r farn y bydd hyn yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r rhai sydd yn yr ystad ddiogel fel rhan o anghenion cyffredinol y boblogaeth.

Chwaraeon

2.34 Mae Ffyniant i Bawb yn amlinellu ein hymrwymiad i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol pobl Cymru a phwysigwydd atal afiechyd cyn bod angen triniaeth. Gofynnwyd i Chwaraeon Cymru ysgwyddo'r gwaith o ddatblygu ffordd newydd o edrych ar weithgarwch corfforol mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddilyn fframwaith perfformiad cyffredin a thargedu gwell lefelau o weithgarwch, yn arbennig mewn cymunedau sydd ar hyn o bryd yn llai tebygol o fodloni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol. Gan fod modd i lwyddiant buddsoddiad yn y maes hwn arwain at enillion sylweddol, rydym wedi amddiffyn cyllid chwaraeon yn gyffredinol ar ei lefel bresennol o £22.3m.

Cyfalaf

2.35 Rydym yn cynyddu ein buddsoddiad yng nghyllid cyfalaf y GIG. O fewn y dyraniad cyfalaf uwch, mae £82.7m (29%) ar gael i sefydliadau'r GIG fel cyfalaf yn ôl disgrisiwn ar gyfer y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Bodloni gofynion statudol, fel iechyd a diogelwch, a'r cod tân;
- Cynnal yr ystad;
- Newid cyfarpar yn brydlon.

- 2.36** Mae gweddill y gyllideb yn cael ei dyrannu i sefydliadau yn dilyn cymeradwyaeth o'r achosion busnes penodol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.
- 2.37** Bydd £132m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2018-19 yn cyflymu datblygiad Ysbyty Athrofaol y Grange (y Ganolfan Gofal Critigol Arbenigol gynt) yn Nhorfaen. Yn ogystal â'r cynllun hwn, sy'n flaenoriaeth, bydd cymorth cyllido'n parhau yn 2018-19 ar gyfer ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd, Adran Argyfwng Ysbyty Gwynedd a chynllun newyddenedigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru.
- 2.38** Rydym yn defnyddio nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i bwysleisio'n hymrwymiad i leihau ôl troed carbon ystad y GIG. Gan ganolbwyntio ar yr hidrymor, mae rhaglen cyfalaf y GIG yn sicrhau bod yr holl adeiladau newydd yn cydymffurfio â gofynion BREEAM Ardderchog. Y nod yw defnyddio ynni'n fwy effeithlon wrth i'r galw am wasanaethau barhau i gynyddu. Hefyd, dylai'r nod polisi o ddod â mwy o wasanaethau yn nes i'r cartref leihau'r galw yn y dyfodol am ysbytai mawr, sy'n aneffeithlon o ran ynni, ond nod tymor hir yw hwn.
- 2.39** Mae cyllid hefyd wedi'i bennu i gefnogi datblygiad parhaus y cynlluniau Gofal Sylfaenol sydd yn yr arfaeth, a fydd yn gweld cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig yn agor erbyn 2021. Bu swyddogion yn gweithio gyda chyrrff y GIG dros y flwyddyn ddiwethaf ar gynlluniau seilwaith gofal sylfaenol a chymunedol, ac ar bennu'r prif flaenoriaethau y gellid eu cyflawni yn nhymor presennol y Cynulliad. Cynigir cyfres gychwynnol o 19 prosiect a fydd yn arwain at gyfanswm buddsoddiad cyfalaf o tua £79m - pymtheg yn medru cael eu hariannu drwy gyfalaf a phedwar drwy ychwanegu referniw Llywodraeth Cymru at ddyraniadau eiddo presennol y gwasanaethau meddygol cyffredinol.
- 2.40** Fel rhan o Gytundeb y Gyllideb, byddwn yn darparu £22m o gyllid cyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf i symud ymlaen gyda'r ganolfan gofal iechyd integredig newydd yn Aberteifi.

Atal

- 2.41** Fel y gwelir yn *Ffyniant i Bawb*, ein nod yw cymryd camau sylweddol i symud y pwyslais tuag at atal problemau yn hytrach na thriniaeth. I gefnogi hyn, rydym wedi cynnal adolygiad o'n cynlluniau gwario i asesu lefel y gwariant presennol ar fesurau atal. Nid oes diffiniad cyson o atal yn cael ei ddefnyddio gan lywodraeth ond mae'r Tasglu Gweithredu Cynnar, a gynhyrchodd yr adroddiad 'Towards Effective Prevention' wedi adeiladu ar y diffiniadau a gynigiwyd yn adolygiad cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar weithredu cynnar, gan eu datblygu mewn trafodaeth gydag ymarferwyr.
- 2.42** Gan ganolbwyntio ar atal a'r hirdymor, byddwn yn sicrhau ein bod yn diogelu ac yn cynyddu ein gwariant ar y meysydd hyn mewn penderfyniadau yn ymwneud â'r gyllideb yn y dyfodol.

2.43 Ymysg yr enghreifftiau penodol o ariannu mesurau atal mae'r canlynol:

- Ariannu astudiaeth i argaeledd PrEP (Atal Clefydau Cyn Cyswllt) er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo haint HIV1 drwy ryw ymysg oedolion risg uchel fel rhan o wasanaeth atal HIV ehangach.
- Buddsoddi mewn genomeg ar gyfer meddygaeth fanwl. Mae'r strategaeth yn amlinellu ein cynlluniau i fanteisio ar dechnoleg genomeg newydd i wella iechyd a llesiant pobl Cymru. Drwy'r strategaeth, rydym am i bobl o bob cwr o Gymru fedru cael diagnosis cynt, mwy cywir a gwell gwybodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth. Hefyd rydym am ddefnyddio'r technegau diweddaraf ar gyfer rhagweld clefydau a deall achosion yn well.

Deddfwriaeth

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

2.44 Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf eleni, cafodd £0.73m ei gynnwys o fewn llinell wariant Gwella Iechyd ac Anghydraddoldeb er mwyn helpu i weithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ystod 2018-19 (nid yw hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaethau fferyllfeydd sy'n dod o dan llinell wariant Gofal Sylfaenol y GIG). Bydd hyn yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys paratoi is-ddeddfwriaeth ac ymgynghori yn ei chylch, yn ogystal â hyfforddi a chyfathrebu. Bydd y gwaith yn parhau y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2018-19, wrth i drefniadau gwahanol agweddau o'r Ddeddf ddod i rym.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

2.45 Mae £1.5m wedi'i gynnwys yn y llinell wariant gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2018-19 er mwyn helpu i weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Bydd hyn yn cefnogi gweithgarwch yn ymwneud yn bennaf ag arian pontio rheoleiddwyr y gweithlu a'r gwasanaeth.

Crynodeb

2.46 Rydym yn parhau i osod buddsoddiad pellach yn GIG Cymru ar frig ein blaenoriaethau ar gyfer gwariant yn 2018-19 a 2019-20. Rydym yn cymryd camau, gyda sefydliadau'r GIG, i sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n arwain at ganlyniadau sy'n bwysig i gleifion. Rydym yn benderfynol, fel llywodraeth, o sicrhau bod yr arfer gorau o ran darparu gwasanaethau yn cael ei fabwysiadu ar draws GIG Cymru. Er mwyn cefnogi ein hymrwymiad tuag at gynaliadwyedd GIG Cymru, rydym yn parhau i fuddsoddi yn addysg a hyfforddiant gweithlu presennol y GIG a'r gweithlu yn y dyfodol. Rydym hefyd yn dangos ein hymrwymiad i atal afiechyd, drwy gynnal ein buddsoddiad yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2.47 Rydym wedi adolygu a lleihau cynlluniau gwario ar gyfer rhai rhaglenni iechyd a llesiant canolog, lle gallwn fod yn siŵr bod modd lliniaru effaith y

gostyngiadau hyn drwy feysydd cyllid craidd eraill. Byddwn yn parhau i fonitro effaith y newidiadau gwariant hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn ein hatal rhag cyflawni ein nod o *Ffyniant i Bawb*.

Pennod 3 - Llywodraeth Leol


- 3.1** Mae Llywodraeth Leol yn bartner allweddol sydd yn y rheng flaen wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ymateb i anghenion lleol, a helpu i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ochr yn ochr ag iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae awdurdodau lleol yn llunio ac yn darparu gwasanaethau lleol, sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ar bob cam o'u bywydau, ac ym mhob rhan o Gymru.
- 3.2** Mae *Ffyniant i Bawb* yn nodi ein huchelgais ac yn gosod mwy o bwyslais byth ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol a hefyd ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol a chymunedau. Mae hyn yn bwysig o ran darparu gwasanaethau cyson, sy'n cryfhau'r gymuned, a sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i'r gofyn yn y dyfodol.
- 3.3** Mae gan yr awdurdodau lleol rôl allweddol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni polisiâu Llywodraeth Cymru. Maent yn gyflogwyr pwysig sy'n darparu swyddi o ansawdd uchel, ond mae ganddynt hefyd rôl allweddol o ran adeiladu economïau lleol a hybu twf. Bydd y rôl hon yn cynyddu wrth i weithio rhanbarthol ehangu ac wrth i awdurdodau gydweithio i ddarparu buddsoddiad strategol trwy fargeinion dinesig a thwf.
- 3.4** Maent yn darparu gwasanaethau sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol drwy ofal cymdeithasol a thai. Maent yn helpu pobl i gadw at ffordd iach o fyw - drwy ddarparu cyfleusterau hamdden a diwylliannol.
- 3.5** Yn ogystal â'u cyfrifoldebau dros ddarparu addysg i blant o oedran ysgol, mae'r awdurdodau lleol yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cefnogi gofal plant a datblygiad plant yn eu blynyddoedd cynnar ac sy'n galluogi oedolion i barhau i ddysgu drwy gydol eu bywydau.
- 3.6** Mae gan yr awdurdodau lleol hefyd rôl allweddol o ran datblygu a meithrin cysylltiadau rhwng cymunedau a datblygu a darparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- 3.7** Mae'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Leol yn gyllid craidd heb ei neilltuo ar gyfer yr awdurdodau lleol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Hefyd mae cyllid yn cael ei ddarparu i gyrff arolygu a rheoleiddio er mwyn darparu goruchwyliaeth statudol effeithiol o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cyllideb Ddrafft 2018-19

- 3.8** Yn 2018-19, mae MEG Llywodraeth Leol yn £4,537m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £3,342m o adnoddau, £143m o gyfalaf a £1,052m o wariant a reolir yn flynyddol (AME).
- 3.9** Y cyllid dangosol ar gyfer 2019-20 yw £3.257m o adnoddau, £143m o gyllid cyfalaf a £1,078m o AME.
- 3.10** Cyllid cyfalaf dangosol 2020-21 yw £143m.

Prif feysydd gwariant

3.11 Mae'r siart isod yn dangos dyraniad cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf 2018-19 ar draws prif weithgareddau'r MEG.



Cymorth cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol

- 3.12** Mae cyllid llywodraeth leol yn cyfrif am ryw 99% o ddyraniad MEG Llywodraeth Leol. Nid yw'r setliad llywodraeth leol wedi'i neilltuo. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut i wario'r adnoddau hyn, ynghyd â'r dreth gyngor a godir yn lleol ac incwm o ffioedd a thaliadau, i gyflawni canlyniadau a blaenoriaethau allweddol. Y setliad craidd yw elfen unigol fwyaf y cyllid y mae llywodraeth leol yn ei gael i ariannu'r ystod o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt.
- 3.13** Yn 2018-19, bydd dros £90m o gyllid, a oedd yn cael ei ddarparu gynt trwy grantiau penodol Llywodraeth Cymru o bortffolios eraill, yn trosglwyddo i mewn i'r MEG Llywodraeth Leol er mwyn cael ei ddarparu i Lywodraeth Leol fel rhan o ddyraniad cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod mwy na £285m o gyllid blynyddol wedi cael ei drosglwyddo i'r setliad ers 2011-12.
- 3.14** Mae trosglwyddo grantiau penodol i'r setliad refeniw cyffredinol yn rhoi mwy o reolaeth i'r awdurdodau lleol dros gynlluniau gwario ar gyfer cyfran uwch o'u gwariant ac, yn ei dro, yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol gynnwys cymunedau yn y penderfyniadau ar wariant sy'n effeithio arnynt a chyflawni anghenion penodol eu cymunedau. Mae cynnig mwy o hyblygrwydd hefyd yn caniatáu i fwy o'r cyllid gael ei wario ar ddarpariaeth rheng flaen.
- 3.15** Mae trosglwyddiadau sylweddol i setliad 2018-19 a'r tu hwnt yn cynnwys:
- £35m - elfen gwastraff y Grant Refeniw Strategol Amgylchedd o'r MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig;
 - £27m - Grant Byw'n Annibynnol Cymru o'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon;
 - £30m - grantiau penodol gofal cymdeithasol o'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.
- 3.16** Mae sgiliau a chyflogadwyedd yn faes hollbwysig i Lywodraeth Cymru. Yn sail i hyn mae addysg o ansawdd uchel, gan sicrhau bod pobl yn ennill y sgiliau sylfaenol y mae arnynt eu hangen drwy gydol eu bywydau yn ystod eu blynyddoedd ysgol.
- 3.17** Mae'r setliad llywodraeth leol yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth ysgolion rheng flaen, i gadw cyfran dybiedig Llywodraeth Cymru o wariant craidd ar lefelau 2017-18, a hynny yn 2018-19 a 2019-20. Mae hyn gyfwerth â £62m yn 2018-19, gan gynyddu i £108m yn 2019-20.
- 3.18** Mae gan ofal cymdeithasol, a ddarperir gan yr awdurdodau lleol ochr yn ochr â gofal iechyd, ran allweddol mewn cymunedau cryf ac mae'n sicrhau y gall pobl fod yn iach ac yn annibynnol am gyfnod hwy. Mae hefyd yn sector economaidd pwysig ynddo'i hun.
- 3.19** Mae'r setliad llywodraeth leol yn cynnwys cyllid ar gyfer cyllidebau gofal cymdeithasol, i gadw cyfran dybiedig Llywodraeth Cymru o wariant craidd ar

lefelau 2017-18, a hynny yn 2018-19 a 2019-20. Mae hyn gyfwerth â £42m yn 2018-19, gan gynyddu i £73m yn 2019-20.

- 3.20** Mae tai yn faes hollbwysig arall a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb* ac mae £6m yn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer digartrefedd drwy'r grant cynnal refeniw yn 2018-19 a 2019-20, i gefnogi mesurau ataliol yn ogystal â helpu'r rhai sy'n ddigartref.
- 3.21** Mae fformiwla'r setliad refeniw cyffredinol, sy'n cael ei datblygu a'i chytuno â llywodraeth leol, yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol yn cymryd ystod o ffactorau i ystyriaeth, gan gynnwys gwasgaredd ac amddifadedd cymharol ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r fformiwla'n dosbarthu'r cyllid sydd ar gael ar sail angen cymharol gan ddefnyddio cyfoeth o wybodaeth am nodweddion demograffig, economaidd-gymdeithasol, ffisegol, ac amgylcheddol pob awdurdod yng Nghymru.
- 3.22** Mae pob awdurdod lleol yn gorff annibynnol, sydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd, sy'n atebol i'w etholwyr am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Mae gan yr awdurdodau gyfres o ddyletswyddau a swyddogaethau statudol, a phwerau i ddarparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau eraill. Rhaid i bob awdurdod sicrhau ei fod yn cynnal asesiadau priodol o effaith unrhyw bolisiau y mae'n eu rhoi ar waith drwy'r setliad llywodraeth leol. Bydd ymgysylltu mewn ffordd lawn ac ystyrlon am ei gyllideb yn helpu i sicrhau bod effeithiau'n cael eu hystyried yn llawn.
- 3.23** Mater i'r awdurdodau lleol yw pennu eu blaenoriaethau eu hunain gan gymryd hyn i ystyriaeth ochr yn ochr â'r ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael iddynt. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol baratoi strategaethau tymor canolig i sicrhau eu bod yn pennu cyllidebau sy'n gadarn ac yn gynaliadwy yn y tymor canolig. Bydd nodi'r dyraniadau refeniw ar gyfer y ddwy flynedd nesaf a'r dyraniadau cyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf yn cefnogi'r broses honno.
- 3.24** Mewn rhai lleoedd, mae'r awdurdodau lleol yn ymgysylltu â chymunedau trwy gynnwys dinasyddion yn eu penderfyniadau gwario. Er enghraifft, dyrannodd Cyngor Tref Bae Colwyn £50,000 i flaenoriaethu prosiectau ar gyfer pobl ifanc, y pleidleisiodd pobl leol drostynt, tra rhedodd Cyngor Dinbych brosiect i breswylwyr lleol wario £25,000 ym Mharc Rhuthun.
- 3.25** Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdodau lleol i gyflawni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol yn nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n eu cynnig i'w bodloni. Mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn nodi sut y mae'r bwrdd yn bwriadu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal.

Plismona

- 3.26** Mae gwasanaethau plismona yng Nghymru yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â chyllid gan y Swyddfa Gartref a'r dreth gyngor a

godir yn lleol. Mae dyraniad Llywodraeth Cymru'n cyfrif am 3% o ddyraniad referniw MEG Llywodraeth Leol, sy'n rhan o'r cyllid craidd heb ei neilltuo.

Diwygio Llywodraeth Leol

- 3.27** Rydym wedi ceisio lliniaru effaith cyni gymaint â phosibl ar lywodraeth leol. Er hynny, mae'n anochel bod angen i'r awdurdodau lleol barhau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd i wneud eu cyllidebau ymestyn ymhellach. Mae hyn yn gosod pwyslais parhaus ar ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau yn rhanbarthol.
- 3.28** Mae'r gyllideb yn cynnwys £5m y flwyddyn nesaf, gan godi i £6m yn 2019-20, i gefnogi cynlluniau ar gyfer diwygio prif gynghorau, gan gynnwys cyflwyno gweithio rhanbarthol systematig a gorfodol i sicrhau eu bod yn dod yn fwy cadarn, yn ariannol ac o safbwynt y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr holl weithgarwch paratoadol sy'n gysylltiedig â diwygio llywodraeth leol ac mae'n cynnwys cyllid i'w fuddsoddi mewn gweithgareddau trawsnewidiol, megis paratoi ar gyfer gwaith rhanbarthol gorfodol a datblygu gallu digidol.
- 3.29** Mae'r diwygiadau hyn hefyd yn cynnwys cynnal adolygiad o rôl cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol.
- 3.30** Mae ein cynlluniau hefyd yn cynnwys mynd ati i ystyried cynigion ar gyfer diwygiadau i system etholiadol llywodraeth leol, i'w gwneud yn haws i bobl bleidleisio ac i ymestyn yr hawl i bleidleisio.

Ardrethi annomestig

- 3.31** Ar ôl i ardrethi annomestig gael eu datganoli'n ariannol i Gymru o fis Ebrill 2015, mae'r cyllid sy'n cael ei ddarparu i lywodraeth leol a chyrrff plismona trwy ailddosbarthu ardrethi annomestig yn cael ei drin fel AME a'i gofnodi mewn llinell gyllideb ar wahân. Mae'r ffigur sydd ar gael i'w ailddosbarthu (£1,052m yn 2018-19) yn cael ei gyfrifo trwy dynnu ar amcangyfrifon o'r elw a ragwelir o ardrethi annomestig yn ystod y flwyddyn, gan gymryd ystod o addasiadau i ystyriaeth. Gellir gweld rhagor o fanylion ar dudalen 20 naratif y Gyllideb ddrafft amlinellol 2018-19.

Cyrrff arolygu a rheoleiddio

- 3.32** Mae'r portffolio Llywodraeth Leol yn cynnwys cyllid ar gyfer Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn. Mae cyllidebau 2018-19 a 2019-20 ar gyfer y cyrrff arolygu a rheoleiddio wedi'u gostwng yn unol â'r gostyngiadau i gostau rhedeg Llywodraeth Cymru. Mae'r cyrrff hyn eisoes yn mynd ati i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a thargedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol, er mwyn lliniaru effaith y gostyngiadau cyllidebol hyn.

Academi Wales

3.33 Cydnabuwyd pwysigrwydd buddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth a dysgu arweinwyr mewn cyfnodau o gwtogi ar adnoddau a gwasgu ar wasanaethau cyhoeddus, gan gefnogi arweinwyr i allu gwneud y newidiadau y mae eu hangen yn awr ac yn y dyfodol. Bydd cynnydd o £0.08m yn 2018-19 yn galluogi Academi Wales i fodloni'r galw a nodwyd ac i gynnig y potensial i gyrraedd at 1000 o gynrychiolwyr pellach gyda hyfforddiant hanfodol.

Cyllid cyfalaf

3.34 Mae lefel cyllid cyfalaf i'r awdurdodau lleol wedi'i chadw ar £143m y flwyddyn. Mae'r cyllid hwn ar gael i awdurdodau lleol ei wario ar fuddsoddi cyfalaf yn unol â'u hanghenion a'u blaenoriaethau penodol eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys helpu elfen awdurdodau lleol y rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif, a chynnal y seilwaith priffyrdd.

Crynodeb

3.35 Er gwaethaf gostyngiad yn y gyllideb oddi wrth Lywodraeth y DU, rydym wedi parhau i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen, yn enwedig ysgolion a gofal cymdeithasol yn y gyllideb referniw ddwy flynedd hon.

3.36 Er ein bod yn parhau i leddfu gymaint â phosibl ar y gostyngiadau, bydd angen i'r awdurdodau lleol barhau i fuddsoddi mewn gweithio a chydweithio rhanbarthol a gweithgareddau trawsnewidiol eraill er mwyn darparu'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol i sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus cadarn ac effeithlon yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt yn parhau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth a'r ddeddfwriaeth i gefnogi hyn.

Pennod 4 - Cymunedau a Phlant


- 4.1 Ein nod yw creu cymunedau diogel, cryf a chadarn lle y gall pobl fyw, gweithio a magu eu plant gyda hyder yn eu dyfodol. Rydym yn mynd ati mewn ffordd ffres i ddelio ag amddifadedd drwy ganolbwyntio ar yr achosion sydd wrth wraidd tlodi. Mae *Ffyniant i Bawb* yn nodi bod y blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth, gan ein bod yn gwybod bod ymyrryd yn gynnar - gan fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol yn hytrach na thrin y symptomau yn unig - yn talu ar ei ganfed.
- 4.2 Rydym yn buddsoddi mewn gofal plant gan fod hyn yn helpu teuluoedd o ran yr opsiynau gwaith sydd ar gael iddynt. Mae galluogi rhieni i gael gwaith yn gwella'r rhagolygon i deuluoedd ac yn lleihau tlodi. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau bod darpariaeth o ansawdd yn gynaliadwy ac yn rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd.
- 4.3 Mae hwyluso'r ffordd i bobl gael cartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy hefyd wedi'i nodi'n faes blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb*, i gydnabod bod bywyd cysurus mewn cartref fforddiadwy o ansawdd da yn dod â manteision o bob math o ran iechyd, dysgu a ffyniant. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni ddwysáu ein hymdrechion i gynyddu nifer y cartrefi – gan gynnwys bodloni'n hymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn - a'r cymorth a ddarperir i grwpiau sy'n agored i niwed iddynt gael byw'n ddiogel yn eu cartrefi.
- 4.4 Rydym yn mynd ati fel llywodraeth gyfan i greu cymunedau cryf drwy ganolbwyntio ar dri maes allweddol, sef y blynyddoedd cynnar, cyflogaeth a grymuso: datblygu cymunedau sy'n gallu cynnig y dechrau gorau mewn bywyd i blant; cymunedau sy'n barod i weithio ac yn gallu gwneud hynny; ac sydd wedi eu grymuso ac yn cyfranogi, yn ogystal â bod yn ddiogel ac yn gadarn.

Cyllideb Ddrafft 2018-19

- 4.5 Yn 2018-19, mae'r MEG Cymunedau a Phlant yn £901m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £397m o adnoddau, £477m o gyfalaf a £27m o wariant a reolir yn flynyddol (AME).
- 4.6 Y cyllid dangosol ar gyfer 2019-20 yw £406m o adnoddau, £371m o gyfalaf a £29m o AME.
- 4.7 Cyllid cyfalaf dangosol 2020-21 yw £339m.

Prif feysydd gwariant

- 4.8 Mae'r siart isod yn dangos dyraniad cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf 2018-19 ar draws prif weithgareddau'r MEG.



Cyflenwad a dewis o dai fforddiadwy

- 4.9 Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a ffyniannus. Profwyd bod buddsoddi yn ansawdd tai yn lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft mae cryn dystiolaeth yn dangos cysylltiadau rhwng cartrefi oer, llaith a chlefydau anadlol ac asthma.
- 4.10 Darparu tai fforddiadwy diogel yw'r ffordd orau o helpu unigolion agored i niwed i oresgyn problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae buddsoddi mewn tai, amgylchedd lleol o ansawdd ac effeithlonrwydd ynni yn dod â manteision economaidd sylweddol, yn creu swyddi ac yn adeiladu cymunedau cryfach.
- 4.11 Fodd bynnag mae'r farchnad dai yng Nghymru, fel y farchnad ledled y DU, o dan bwysau eithriadol. Mae'r ddarpariaeth yn gymhleth a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar eu hincwm a lle yng Nghymru maent yn byw. Mae angen targedu ymyriadau'r Llywodraeth, felly, a rhaid i ni ddefnyddio pob dull sydd ar gael, gan weithio gyda chymdeithasau tai, awdurdodau lleol, adeiladwyr tai preifat a'r sector rhentu preifat er mwyn sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl ac ymateb i wahanol anghenion.

- 4.12 Bydd cyllid o £339.6m yr arferid ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn yn cael ei ryddhau yn ystod 2018-19, 2019-20 a 2020-21 i gefnogi ein rhaglen gwerth £1.4bn i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy, yn unol â'r ymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb*. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu inni barhau i ganolbwyntio ar ddarparu tai cymdeithasol, ond hefyd i gynyddu cyfran perchnogaeth cartrefi rhad. Rydym am ei gwneud yn haws i bobl brynu cartref drwy gynlluniau Cymorth i Brynu a Rhentu i Brynu, a gwneud prynu cartref mewn ardal wledig lle mae'r costau'n uchel yn rhywbeth sydd o fewn cyrraedd pobl leol drwy Gymorth Prynu.
- 4.13 Rydym wedi ymrwymo i helpu i ddarparu'r tai iawn ar gyfer ein cymunedau amrywiol ledled Cymru.
- 4.14 Rydym yn cynyddu ein buddsoddiad blynyddol yn y Grant Cyllid Tai 2, ein cynllun arloesol sy'n darparu cyllid ad-daladwy i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol sy'n cadw stoc. Rydym yn ei godi £3.7m yn 2018-19 ac £1.7m arall yn 2019-20 wrth iddo ddod yn gwbl weithredol. Nod y cynllun yw rhoi hwb o £250m yn y buddsoddiad cyffredinol yn y sector tai.
- 4.15 Rydym hefyd yn cynnal ein dyraniadau refeniw eraill ar lefelau 2017-18 er mwyn helpu i ddarparu'r 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn unol â'n targed, a datblygu cyfres o atebion i'r broblem tai.

Y Gronfa Gofal Integredig

- 4.16 Mae'r Gronfa Gofal Integredig a gyllidir gan refeniw yn cefnogi modelau newydd ac arloesol o ofal a chymorth ac yn cael ei hariannu drwy'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. I'w hategu, rydym yn buddsoddi £15m ychwanegol dros ddwy flynedd (£5m yn 2019-20 a £10m yn 2020-21) mewn rhaglenni cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn ategu'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach drwy ddatblygu prosiectau sy'n annog pobl i fyw'n annibynnol tra'n atgyfnerthu hefyd waith partneriaeth ar lefel ranbarthol.
- 4.17 Bydd y prosiectau hefyd yn cyfrannu at yr ymrwymiad i adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy dros gyfnod y Cynulliad hwn a bodloni ymrwymiad *Symud Cymru Ymlaen* i weithio gyda chymunedau i helpu'r boblogaeth i aros yn iach wrth iddi heneiddio. Mae darpariaeth fel gofal ychwanegol yn opsiwn pwysig arall yn lle gofal preswyl; mae'n osgoi'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir; a gall ei gwneud yn bosibl inni ddarparu gofal cymdeithasol yn fwy effeithlon.

Adfywio

- 4.18 Bydd rhaglen adfywio newydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar adfywio cymunedau yn weledol, yn gymdeithasol ac yn economaidd o 2018 ymlaen. Mae'n cynigion yn adlewyrchu'r ymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i roi sylw i anghenion ardaloedd sydd wedi gweld llai o fanteision twf economaidd. Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n cynnig atebion integredig ar sail gwaith ar draws y Llywodraeth. I ddechrau, bydd hyd at £100m ar gael dros dair blynedd.

- 4.19** Mae targedu buddsoddiad mewn adfywio yn hollbwysig er mwyn sicrhau swyddi a ffyniant a chreu cymunedau cryf ym mhob rhan o Gymru, yn hytrach na dim ond yr ardaloedd hynny sy'n cynnig yr elw masnachol gorau. Rydym yn wynebu cryn her wrth geisio datblygu cymunedau ffyniannus, deniadol a chynaliadwy mewn ardaloedd economaidd-ddifreintiedig neu sydd wedi dioddef yn sgil diwydiannau trwm yn y gorffennol, tra bod ardaloedd gwledig Cymru'n wynebu heriau penodol gwahanol.
- 4.20** Rydym am ddatblygu rhaglen buddsoddi cyfalaf yn seilwaith gweledol y cymunedau hynny yn benodol, er mwyn gwella lefelau cyflogaeth ac ansawdd bywyd eu dinasyddion. Bydd yn rhaid ymgynghori â'r cymunedau hynny wrth wneud penderfyniadau ar y ffordd orau o wario arian cyhoeddus, ac yn unol â blaenoriaethau y cytunir arnynt yn rhanbarthol.
- 4.21** Bydd gan awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid eraill sy'n gweithredu o fewn y rhanbarthau rôl hollbwysig o ran nodi'r blaenoriaethau hynny a chyflwyno ein rhaglenni ar lawr gwlad. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y rhaglen newydd yn gydnaws â blaenoriaethau strategol eraill, gan gynnwys y ddwy fargen ddinesig, Wylfa Newydd, y Metros a'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De.

Cefnogi Plant

- 4.22** Rydym yn cydnabod mai gofal plant yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd yng Nghymru sy'n gweithio. Byddwn yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant yn rhad ac am ddim i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio, a hynny am hyd at 48 o wythnosau'r flwyddyn, mewn ffordd sy'n gweithio i rieni a phlant.
- 4.23** Dylai cynyddu'r gofal plant fforddiadwy sydd ar gael yn hwylus alluogi rhieni i weithio, gan gefnogi ein hymdrechion i wella twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd a manteision yn y tymor hir ar gyfer ein plant ac yn gwella eu cyfleoedd bywyd.
- 4.24** Er mwyn sicrhau'r drefn orau i rieni a darparwyr, rydym wedi dechrau treialu'r cynnig mewn lleoliadau penodol o fewn saith awdurdod lleol. Cafodd y rhain eu dewis i roi amrywiaeth ddaearyddol o bob cwr o Gymru a chymysgedd o gymunedau gwledig, trefol a'r cymoedd. Mae'r cyllid i gefnogi'r cynnig gofal plant yn cynyddu i £25m yn 2018-19 ac i £45m yn 2019-20, gan ganiatáu inni ehangu a threialu agweddau ar y ddarpariaeth mewn gwahanol amgylchiadau, i sicrhau bod y cynnig yn gweithio pan fydd ar gael yn llawn ledled Cymru o fis Medi 2020.
- 4.25** Mae gwerth £1m o gyllid yn 2018-19 wedi'i ddarparu i gefnogi Cronfa Dydd Gŵyl Dewi; grant bwrsari i gefnogi plant mewn gofal neu'r rheini sydd yn y perygl mwyaf.

Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth

- 4.26** Mae gwaith amlasiantaeth yn rhywbeth hanfodol yn hytrach na dewisol, ac mae rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi gwella'r ffordd mae asiantaethau yn cydweithio i gefnogi teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed, drwy gydgomisiynu gwasanaethau a dulliau 'Tîm o Amgylch y Teulu' o ddarparu gwasanaethau. Mae darpariaeth Gymraeg yn elfen annatod o Dechrau'n Deg ac mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ymateb i ddewisiadau rhieni, a chynnig darpariaeth drwy'r Gymraeg lle bo angen.
- 4.27** Mae cyllidebau refeniw yn y maes hwn wedi lleihau o £154m yn 2017-18 i £140m yn 2018-19, i raddau helaeth yn sgil dod â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben. Wrth wneud y penderfyniad i ddod â'r rhaglen honno i ben, cynhaliwyd trafodaeth eang ac asesiadau effaith helaeth. Mae'r rhain wedi llywio penderfyniadau, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyllid etifeddol i gefnogi cymunedau. Sicrhawyd arbedion pellach o £2m yn 2018-19 yn sgil ailbroffilio prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop i wneud y defnydd gorau o gyllidebau domestig.
- 4.28** Ar gyfer 2019-20, ystyrir creu un grant i dynnu ynghyd bob grant a gaiff ei dalu i awdurdodau lleol i gefnogi ymyrraeth gynnar, atal problemau a chefnogaeth. Byddai un grant yn golygu bod awdurdodau lleol a phartneriaid byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cyd-drefnu gwasanaethau yn well er mwyn cyflawni amcanion llesiant. Byddai hyn yn helpu i ailddylunio gwasanaethau yn unol ag egwyddorion ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai un grant mwy o faint yn cael gwared â'r cyfyngiadau sy'n dod yn sgil grantiau unigol llai, a gellid defnyddio'r cyllid i gyflawni anghenion y penderfynwyd arnynt yn lleol mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ar lefel leol. Byddai hyn yn cael gwared â'r rhwystrau artiffisial rhag gwasanaeth effeithiol. Byddai cydgysylltu'r broses weinyddu yn fwy a'i symleiddio hefyd yn lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â grantiau, gan helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd o £13.4m sydd eu hangen.
- 4.29** Byddai hyn yn adeiladu ar y gwaith i ddiwygio llywodraeth leol ac yn cynyddu cyfranogaeth a thrafodaeth ddemocrataidd.
- 4.30** Gallai symud i un grant ddod â'i heriau yn ogystal â'i gyfleoedd; byddai angen trefn atebolrwydd gymesur i gyd-fynd â'r hyblygrwydd. Byddwn yn trafod gyda'r rhanddeiliaid ac yn datblygu ein dull o gydweithredu â phartneriaid allweddol i sicrhau bod unrhyw newidiadau er lles pobl. Yn 2018-19, bydd nifer o awdurdodau lleol yn datblygu mwy o hyblygrwydd ariannol er mwyn alinio darpariaeth gwasanaethau. Bydd hyn yn help wrth ddod i benderfyniad terfynol.
- 4.31** Dyma'r grantiau y gallai'r newid hwn effeithio arnynt:
- Cefnogi Pobl
 - Grant Refeniw Dechrau'n Deg
 - Teuluoedd yn Gyntaf
 - Grant Etifeddol Cymunedau yn Gyntaf
 - Grant Cyflogadwyedd

- Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc
- Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol
- Grant Gwasanaethau i Ddelio â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Atal Digartrefedd
- Gorfodi Rhentu Doeth Cymru
- Grant Cydlyniant Cymunedol
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
- Y Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol.

Cydraddoldeb a Chynhwysiant

- 4.32** Mae rhaglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017-20, sy'n werth £2m, yn cefnogi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'i phartneriaid, gan gynnwys saith asiantaeth flaenllaw, i gefnogi unigolion a chymunedau ledled Cymru mewn perthynas â: hil (Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig); rhywedd (Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru); cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd (Stonewall Cymru); anabledd (Anabledd Cymru); ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Cyngor Ffoaduriaid Cymru); Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Tros Gynnal Plant) a mynd i'r afael â throseddau casineb (Cymorth i Ddiodefwyr Cymru). Yn ogystal â darparu cymorth a chyngor arbenigol mewn perthynas â phob un o'r materion hyn, mae'r partneriaid hefyd yn cydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn gyffredinol, gan gydnabod materion, heriau a chyfleoedd cyffredin. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi hefyd gan wyth cydgysylltydd cydlyniant cymunedol rhanbarthol, sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol i fonitro tensiynau cymunedol a hyrwyddo cydlyniant.
- 4.33** Rydym yn parhau i ddarparu cyllid o £10m ar gyfer costau cynnal a chadw ac adnewyddu ar y safleoedd sipsiwn a theithwyr sy'n bodoli eisoes ac ar gyfer prynu safleoedd newydd.
- 4.34** Mae cyllideb cydraddoldeb a chynhwysiant yn cyfrannu at waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De sy'n canolbwyntio ar adfywio yn y Cymoedd. Cyhoeddodd y Tasglu gynllun gweithredu lefel uchel *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*, ar sail adborth gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd a thystiolaeth a gasglwyd gan aelodau'r tasglu ym mis Gorffennaf 2017. Bydd yn cyhoeddi cynllun cyflawni yn ddiweddarach yn yr hydref.
- 4.35** Mae gwaith y tasglu wedi'i arwain gan drafodaethau helaeth gyda'r cyhoedd – byddwn yn ennill dealltwriaeth glir o'r hyn mae pobl wir am ei weld yn eu gwasanaethau cyhoeddus, ac ymateb i'r ffactorau sy'n rhwystro'r gwasanaethau hynny rhag cael eu darparu. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddefnyddio'r Cymoedd fel peilot ar gyfer dull o wella sgiliau pobl ar gyfer byd gwaith mewn un lle.

Cefnogi Pobl

- 4.36** Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu pobl sy'n agored i niwed i ddod o hyd i gartref neu lety, ei gadw a byw mor annibynnol â phosibl. Mae hyn yn rhan

allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd; lleihau'r defnydd o'r GIG; gwasanaethau gofal cymdeithasol hirdymor a threchu tlodi. Mae'r Rhaglen yn darparu dros 57,000 o unedau o gymorth i amrywiaeth o bobl sy'n agored i niwed, mewn amgylchiadau o bob math.

- 4.37** Fel rhan o Gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, mae £10m wedi'i ddyrannu bob blwyddyn i gynnal y grant Cefnogi Pobl ar y lefel bresennol. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i atal problemau a'r pwysau sy'n codi yn sgil digartrefedd ac effeithiau ar wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, a'r system cyfiawnder troseddol.
- 4.38** Hefyd llwyddwyd i fuddsoddi £1m ychwanegol yn y Gronfa Cymorth Dewisol i helpu rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Atal digartrefedd

- 4.39** Mae'r Grant Atal Digartrefedd yn cefnogi sefydliadau yn y sector statudol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau rheng flaen i atal digartrefedd a helpu pobl y mae digartrefedd yn effeithio'n gyson arnynt. Mae'n effeithio'n uniongyrchol ar lesiant pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a'r holl ganlyniadau sy'n dod yn sgil hynny. Mae'n helpu i atal amrywiaeth eang o broblemau personol a chymdeithasol i bobl agored i niwed.
- 4.40** Mae £4m o gyllid refeniw ychwanegol wedi'i ddarparu yn 2018-19 a 2019-20, sy'n dod â'r cyfanswm i £10m yn 2018-19 a £8m yn 2019-20. Mae hyn yn rhan o becyn cymorth ehangach i fynd i'r afael â digartrefedd yn y gyllideb ddrafft hon, ac mae £6m ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu drwy Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol bob blwyddyn er mwyn galluogi awdurdodau lleol i weithredu ac adeiladu ar fesurau ataliol a ariannwyd yn flaenorol drwy gyllid grant trosiannol.
- 4.41** Heb lety sefydlog, mae bron yn amhosibl i berson gael neu gadw swydd gyflogedig, ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod cysylltiad rhwng tai o ansawdd gwael a phroblemau iechyd sy'n gallu cyfrannu at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn ogystal â chael effaith negyddol ar allu plant i ddysgu.
- 4.42** Yn 2019-20, mae'n bosibl y caiff y £2.8m a delir i awdurdodau lleol ar hyn o bryd ei drosglwyddo i'r grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi gwaith sy'n mynd i'r afael â chysgu ar y stryd a digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn benodol, gan adeiladu ar waith peilot eleni. Bydd gweddill y gyllideb ar gael i barhau i gefnogi prosiectau'r trydydd sector a phrosiectau newydd.

Cam-drin Domestig

- 4.43** Mae'r gyllideb refeniw i fynd i'r afael â phob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynyddu i £5m yn 2018-19. Yn 2019-20, mae'n bosibl y bydd elfen awdurdodau lleol o'r grant - £2m ar hyn o bryd - yn daladwy drwy'r grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth.

- 4.44** Mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn droseddau sy'n ymwneud â rhywedd oherwydd, yn ystadegol, menywod a merched yw'r mwyafrif helaeth o'r dioddefwyr. Ein nod yw dod â gwahaniaethu yn erbyn menywod a merched i ben, gan hyrwyddo cydraddoldeb rhwng menywod a dynion. Mae'n hollbwysig sicrhau bod yna gefnogaeth a gwasanaethau ar lawr gwlad, sy'n barod i ymateb i bobl sydd eu hangen fwyaf.
- 4.45** Mae'r ystadegau ar gyfer menywod du ac o leiafrifoedd ethnig sy'n dioddef gwahanol fathau o gamdriniaeth yn anghymesur. Gallant wynebu rhwystrau ychwanegol wrth chwilio am gymorth, megis gwahaniaethu ar sail hil, stereoteipio crefyddol, ofn cael eu cywilyddio a'u gwrthod gan eu cymuned, a statws mewnfudo ansicr.
- 4.46** Gwyddom hefyd fod pobl anabl yn dioddef lefelau anghymesur o uchel o gamdriniaeth ddomestig ac yn dioddef am gyfnodau hirach, mewn ffordd fwy difrifol ac yn amlach na phobl nad ydynt yn anabl.
- 4.47** Roedd gwaith ymchwil a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014 yn tynnu sylw at y rhwystrau y mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn eu hwynebu wrth geisio defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol. Tynnwyd sylw at rwystrau unigol, rhyngpersonol, strwythurol a diwylliannol, gan wneud cyfres o argymhellion ynghylch ffyrdd o'i gwneud yn haws defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys hyblygrwydd, cyfrinachedd a bod yn gynhwysol.
- 4.48** Bydd Gweinidogion Cymru yn cefnogi ac yn cyfarwyddo'r comisiynwyr y bydd y cyllid hwn yn eu hariannu a byddant yn gweithio gyda'r comisiynwyr sydd â'u cyllid eu hunain i greu dull mwy integredig a strategol o ddarparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r anghenion ym mhob ardal.

Cyfleusterau Cymunedol

- 4.49** Darperir cyllid drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol er mwyn gwneud cyfleusterau cymunedol yn fwy cynaliadwy, yn enwedig yn yr ardaloedd a arferai fod yn glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Er mwyn sicrhau mai'r gymuned sy'n arwain hyn, rhaid i geisiadau ddangos sut mae'r gymuned wedi bod yn datblygu'r cynigion a sut bydd y cyfleuster o fudd i bobl leol yn y tymor hirach.
- 4.50** Mae cyfalaf ychwanegol o £6m wedi'i ddarparu ar gyfer y rhaglen yn 2018-19, £4.5m yn 2019-20 a £4.4m yn 2020-21. Rydym yn disgwyl y bydd 80 i100 o adeiladau cymunedol yn cael cymorth dros dair blynedd. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i gryfhau'r gymuned, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant, a chyflogadwyedd a sgiliau.
- 4.51** Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn helpu i ddarparu cyfleusterau cymunedol cynaliadwy, sy'n ateb y diben, gan gyfrannu'n sylweddol at lesiant pobl leol. Mae'r cyfleusterau'n rhoi lle i'r cymunedau ddod at ei gilydd a chynnal amrywiol sesiynau a fydd yn gwella sgiliau a chyflogadwyedd pobl Cymru, gan gynnwys sesiynau ysgrifennu CV neu wersi Cymraeg.

Deddfwriaeth

4.52 Mae dau ddarn o ddeddfwriaeth yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

Deddf Rhentu Cartrefi 2016

4.53 Mae'r Ddeddf hon yn diwygio'r sail gyfreithiol dros rentu cartref gan landlord preifat neu landlord cymunedol, gan gynnwys awdurdodau lleol a landlordiaid cofrestredig.

4.54 Bydd y gwariant yn helpu'r gwaith cyfathrebu, hyfforddi a gwerthuso. Mae'r ffigurau yn adlewyrchu'r rheini yn y Memorandwm Esboniadol Diwygiedig a gyhoeddwyd ar ddiwedd proses graffu Cam 2 y Bil, ond ddwy flynedd yn hwyrach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Y rheswm am hyn yw graddau a natur yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen (arweiniodd y gwaith craffu at ofynion is-ddeddfwriaeth ychwanegol), ac yn benodol yr angen i sicrhau bod modd cynnal ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd a'u cynnwys cyn gweithredu.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

4.55 Mae'r Ddeddf yn darparu ffocws ar draws y sector cyhoeddus ar atal y problemau hyn, diogelu dioddefwyr a chefnogi'r rheini y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt.

4.56 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ("Awdurdodau Lleol") a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau i ddod â cham-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol i ben. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r awdurdodau perthnasol ynghylch sut y dylent arfer eu swyddogaethau er mwyn cyfrannu at ddod â cham-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol i ben, ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer penodi Cynghorydd Gweinidogol.

Crynodeb

4.57 Mae cymunedau diogel a chryf yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni ein hamcanion llesiant. Mae *Ffyniant i Bawb* yn nodi tai a'r blynyddoedd cynnar fel dau faes blaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth sy'n cyfrannu fwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor. Mae'r portffolio hwn yn chwarae rôl ganolog o ran gwneud cynnydd cadarnhaol yn y meysydd hyn, yn ogystal â chefnogi gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, a sgiliau a chyflogadwyedd.

4.58 Ein nod fydd sicrhau, mewn cydweithrediad gyda'n partneriaid, ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon a chlir gyda'n dinasyddion ac ar eu cyfer.

Pennod 5 – Yr Economi a'r Seilwaith

- 5.1 Ffordd o gyrraedd nod yw economi lwyddiannus, yn hytrach na nod ynddo'i hun. Mae'n galluogi cymunedau i ffynnu ac yn rhoi'r modd i bobl wireddu eu dyheadau. Mae canlyniadau da o ran iechyd, grymuso pobl drwy roi'r uchelgais, yr hyder a'r dysg iddynt lwyddo a meithrin ymdeimlad o gymuned a chydberthynas, yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar sicrhau canlyniadau economaidd sy'n golygu bod ein pobl, ein busnesau a'r lleoedd yn teimlo'n fwy llewyrchus, diogel a hyderus am eu dyfodol.
- 5.2 Nod sylfaenol ein cyllideb yw cyflawni'n rhaglen lywodraethu a'r blaenoriaethau sy'n cael eu nodi yn *Ffyniant i Bawb*. Rydym yn helpu i greu a chadw swyddi, ac rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i gyllid a fydd yn helpu i sicrhau bod swyddi a chyfleoedd ar gael i bawb yn ddiwahân fel y bo pob unigolyn yn gallu elwa ar dwf economaidd, fel y nodir yn [Gwneud Cymru'n Genedl Decach](#).
- 5.3 Mae yna dystiolaeth mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r ffordd orau allan o dlodi ac o amddiffyn pobl sydd mewn perygl o ddiodef tlodi. Mae tlodi parhaus yn niweidio unigolion a chymunedau a gall arwain at niwed materol a seicolegol, yn ogystal ag at ganlyniadau cymdeithasol ehangach. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theluoedd drwy fentrau penodol a thrwy dargedu buddsoddiad ledled Cymru.
- 5.4 Bydd swyddi o ansawdd da a thwf cynaliadwy yn rhoi rheswm i bobl aros neu ddychwelyd i fyw a gweithio mewn cymunedau lleol lle mae'r iaith yn ffynnu. Bydd economi ffyniannus yn ein helpu i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 5.5 Byddwn yn lansio cynllun gweithredu newydd ar yr economi a fydd yn ein helpu i weithio gyda'r gymuned fusnes yn hwyrach eleni.


Cyllideb Ddrafft 2018-19

- 5.6 Yn 2018-19, mae MEG yr Economi a'r Seilwaith yn £1,251m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £801m o adnoddau, £411m o gyfalaf a £39m o Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME).
- 5.7 Y cyllid dangosol ar gyfer 2019-20 yw £767m o adnoddau, £487m o gyfalaf a £167m o AME.
- 5.8 Cyllid cyfalaf dangosol 2020-21 yw £505m.


Prif feysydd gwariant

- 5.9 Mae'r siart isod yn dangos dyraniad cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf 2018-19 ar draws prif weithgareddau'r MEG.

Dosbarthiad Cyllideb DEL 2018-19 - ac eithrio AME



Meysydd Gwariant Allweddol Trafnidiaeth 2018-19



Cefnogi busnesau

5.10 Un o elfennau allweddol ein gwaith yn hyn o beth ers 2010 yw datblygu sectorau o'r economi. Mae'r ffordd hon o weithio wedi sbarduno llwyddiannau pwysig iawn. Yn ogystal â'r addewid o swyddi a buddsoddiad newydd drwy Aston Martin a General Dynamics, rydym wedi llwyddo i newid y canfyddiadau

sydd gan bobl o Gymru, gan ddangos ei fod yn lle i fuddsoddi ynddo, ac rydym wedi llwyddo hefyd i gryfhau gweithgynhyrchu uwch, sydd wrth wraidd economi Cymru.

- 5.11 Byddwn yn parhau i ailbennu ffocws ein cyllidebau er mwyn sicrhau twf mwy cytbwys ym mhob cwr o Gymru, y tu allan i'r canolfannau twf sydd wedi ennill eu plwyf. Bydd dyraniad ychwanegol o £1.5 m, fel rhan o Gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, ar gyfer rhaglen yn canolbwyntio ar y sector gofal ac ar gaffael cyhoeddus yn ardaloedd trefol a gwledig Cymru, gan helpu i ddatblygu'r economi sylfaenol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol yng Nghymru eisoes. Mae Cytundeb y Gyllideb hefyd yn cynnwys £1m y flwyddyn ar gyfer cymorth buddsoddi ac ysgrifenyddiaeth Arfor.
- 5.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi [bwletin ystadegol ar sectorau â blaenoriaeth](#), sy'n cynnwys data ar: Werth Ychwanegol Gros (GVA); swyddi cyflogaion; enillion yr awr yn ôl rhyw a chyflogaeth yn ôl lefel cymwysterau. Rydym yn ystyried y data hyn wrth bwysu a mesur effeithiau ar gydraddoldeb ac wrth lunio'n cynlluniau gwario.
- 5.13 Drwy ariannu rhaglen Cymru Iach ar Waith rydym yn helpu cyflogwyr i wella iechyd a llesiant yn y gwaith, lleihau effaith afiechyd yn y gwaith ac annog ymyrraeth gynnar i helpu gweithwyr sydd mewn perygl o absenoldeb tymor hir yn sgil afiechyd.

Sectorau

- 5.14 Wrth fuddsoddi mewn sectorau â blaenoriaeth, y nod cyffredinol yw helpu i greu capasiti a thargedu buddsoddiad. Wrth inni fynd ati i lunio'r cynllun gweithredu newydd ar yr economi, rydym yn adolygu'n ffordd o weithio ar sail sectorau. Yn unol â hyn, bydd £5.5m o refeniw yn cael ei ailddyrannu yn 2018-19 ar gyfer gweithgarwch entrepreneuriaidd. Bydd buddsoddiad cyfalaf o £158m i gefnogi twf y sectorau â blaenoriaeth dros y tair blynedd nesaf.
- 5.15 Rydym wedi cefnogi dros 170,000 o swyddi yn ystod y pum mlynedd diwethaf er mwyn sicrhau bod yr economi'n tyfu.
- 5.16 Bydd Banc Datblygu Cymru yn creu cyfoeth a swyddi o ansawdd uchel drwy ddefnyddio model cyflawni y gellir ei addasu ac a fydd yn ymateb i anghenion y farchnad ond a fydd, ar yr un pryd, yn parhau i roi gwerth am arian cyhoeddus. Bydd gwerth £28m o gyllid trafodiadau ariannol rhwng 2018-19 a 2020-21 yn golygu y bydd yn haws i fusnesau bach a chanolig gael gaffael ar gyllid, gan gynnig atebion penodol ar gyfer sectorau allweddol o'r gymuned fusnes yng Nghymru. Bydd yr enillion a ddaw yn sgil y cyllid hwn yn cael eu hailfuddsoddi mewn busnesau, gan ddangos bod cylch cynaliadwy'r buddsoddiadau yn ffordd fwy costeffeithiol nag arian grant traddodiadol. Drwy sicrhau bod y model cyflawni yn cyd-fynd â chostau rhedeg y banc datblygu, bydd y Banc yn ei ariannu ei hun, gan arwain at arbedion o £1.7m yn 2018-19.
- 5.17 Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn twristiaeth drwy weithredu *Partneriaeth ar gyfer Twf*, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2020. Bydd cyllid

ychwanegol o £3m yn 2018-19 a £1m yn 2019-20 i Croeso Cymru, yn sgil Cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, yn ein galluogi i adeiladu ar frand llwyddiannus Cymru er mwyn atgyfnerthu hunaniaeth gyfoes, gyfareddol ac atyniadol ein gwlad fel lle i gynnal busnes ac i astudio, a bydd hefyd yn ein galluogi i foderneiddio'n presenoldeb digidol ym mhedwar ban byd.

- 5.18** Rydym wedi cadw swm o £3.9m ar gyfer digwyddiadau mawr, sy'n ein cynorthwyo yn ein hymdrechion i greu Cymru ffyniannus ac sy'n rhoi proffil rhyngwladol uwch i Gymru. Yn 2016-17, denodd 35 o ddigwyddiadau dros 348,000 o ymwelwyr i Gymru. Gwariodd yr ymwelwyr hynny swm ychwanegol o £53m, gan gefnogi 1,200 o swyddi yn y sector twristiaeth.
- 5.19** Rydym yn cydnabod bod ein hymrwymiaadau i leihau allyriadau carbon ac i ddefnyddio llai o adnoddau naturiol na ellir eu hadnewyddu yn creu heriau mawr. Er mwyn defnyddio llai ar geir diesel a phetrol a cherbydau eraill, ac er mwyn defnyddio mwy o ynni gwynt, ynni solar, ynni'r llanw ac ynni niwclear, bydd yn rhaid wrth ymdrech unedig a phendant. Mae'n cynlluniau'n cynnwys buddsoddiad o £28.2m dros y tair blynedd nesaf yn y sector ynni a'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod Cymru ar flaen y gad wrth inni newid i economi carbon isel a gwastraff isel.
- 5.20** Mae Wylfa Newydd yn gyfle adfywio pwysig ac mae ganddo'r potensial i sicrhau gwaddol parhaol i Gymru.
- 5.21** Mae prosiectau cydweithredol yn hanfodol er mwyn gwireddu Ffyniant i Bawb. Mae'r Academi Feddalwedd Genedlaethol yn enghraifft dda o'r ffordd mae Prifysgol Caerdydd, busnesau ac Arloesfa Llywodraeth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â'r prinder peirianwyr meddalwedd sydd â chymwysterau da ac sy'n "barod ar gyfer byd gwaith". Mae'r fenter hon wedi denu diddordeb ac ymrwymiaadau oddi wrth fusnesau cynhenid ac oddi wrth fusnesau o'r tu allan i Gymru a allai fuddsoddi yma, ac mae dros 170 o sefydliadau wedi gweithio gyda'r Academi Feddalwedd yn ystod ei dwy flynedd gyntaf.

Entrepreneuriaeth a gwybodaeth busnes

- 5.22** Wrth fynd ati i ailbennu blaenoriaethau o ran cymorth busnes, rydym wedi dyrannu £6.6m ychwanegol, sy'n denu arian cyfatebol oddi wrth yr UE ar gyfer gweithgareddau Busnes Cymru, er mwyn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer meithrin amodau sy'n caniatáu i fusnesau ffynnu. Mae'r gweithgareddau'n hyrwyddo gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, gan alluogi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gydweithio â'n prifysgolion a'n colegau i arloesi ac i feithrin entrepreneuriaeth. Mae yna weithgareddau hefyd lle mae cymorth yn cael ei deilwra er mwyn diwallu anghenion cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.
- 5.23** Mae entrepreneuriaeth yn rhan hanfodol o fentrau cydweithredol fel y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, sydd am helpu 100 o fusnesau yn y Cymoedd sydd â'r potensial mwyaf i dyfu ac i ddefnyddio technolegau digidol.

- 5.24** Yn 2018-19 a 2019-20, bydd dyraniad ychwanegol o £0.1m, drwy Gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, yn darparu grant dechrau busnes ar gyfer newyddiadurwyr lleol sydd am sefydlu eu busnesau eu hunain. Un o'r amcanion eraill wrth ddarparu cyllid yw mynd i'r afael, drwy'r rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid, â'r lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc ac â'r lefelau uwch o dlodi ac allgáu cymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig.
- 5.25** Mae rhwydwaith cryf o 342 o entrepreneuriaid ledled Cymru, 21% ohonynt yn siarad Cymraeg, sy'n fodolau rôl gydag ymgyrch Syniadau Mawr Cymru er mwyn symbylu ac ysbrydoli pobl ifanc.
- 5.26** Mae'r dyraniadau i fentrau cymdeithasol yn cydnabod y rôl bwysig sydd ganddynt o ran cryfhau cydlyniant cymdeithasol. Mae'r sefydliadau wedi cynorthwyo mentrau a darparwyr gofal plant i gefnogi teuluoedd ac unig rieni i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac maent wedi creu cyfoeth lleol mewn cymunedau sydd ar y cyrion. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi'n hagenda trechu tlodi a'u nod yw mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth iddynt geisio dod o hyd i waith a manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant.

Arloesi a gwyddoniaeth

- 5.27** Mae gan arloesi ran bwysig i'w chwarae mewn gwella cynhyrchiant - mae ein cynlluniau'n cynnwys cyfanswm o £28.4m o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf dros gyfnod o dair blynedd. Mae rhaglenni Ewropeaidd Arbenigedd SMART a SMART Cymru yn hwyluso cydweithio rhwng y byd academiaidd, y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac yn helpu mentrau yng Nghymru i fasnacheiddio ac i dyfu. Er mwyn rhoi sylw i'n hanghenion yn y tymor hirach ac atal problemau rhag codi yn y dyfodol, mae'r tîm SMART wedi mabwysiadu'r dull gweithredu economi gylchol. Mae hyn yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar systemau yn hytrach na chydrannau, ac yn arwain at systemau cylchol cadarn a chynhyrchiol, gan gefnogi cynaliadwyedd. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Sefydliad Ellen MacArthur, Cwmni McKinsey, mentrau rhyngwladol a sefydliadau partner o chwech o wledydd ar draws yr UE. Drwy roi sylw i'r prif elfennau fel y gallu i ailgylchu, ail-ddefnyddio, mwy o ddefnyddioldeb, llai o ddarfodiad, llai o wastraff a dylunio ar gyfer cynhyrchu a dewis deunyddiau, mae modd defnyddio llai o garbon.
- 5.28** Mae rhaglen Sêr Cymru, sy'n denu ymchwilwyr blaenllaw a buddsoddiad cysylltiedig yn y clwstwr lled-ddargludyddion yn y De, yn creu mwy o gapasiti.
- 5.29** Mae gwerth economaidd sylweddol i fuddsoddiad cyhoeddus mewn gwyddoniaeth ac ymchwil, yn enwedig o ran cyflogaeth sy'n talu'n dda. Mae'r gallu i ysgogi arian cyfatebol oddi wrth y sector preifat yn ffordd arall o ychwanegu at y syniadau a'r wybodaeth newydd sy'n cael eu creu gan wyddoniaeth a ariennir â chyllid cyhoeddus. Mae'n hanfodol er mwyn gwireddu strategaeth y sector i ddenu mewnfuddsoddiad a sicrhau bod cwmnïau cynhenid yn tyfu.

Seilwaith TGCh

- 5.30** Mae prosiect cydgasglu band eang y sector cyhoeddus (PSBA) yn ffordd o fynd ati ar y cyd i brynu gwasanaethau rhwydweithio ardal eang ac integreiddio gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer dros 80 o sefydliadau a 4,000 o safleoedd. Bydd dyraniad cyfalaf ychwanegol o £5m yn 2018-19 yn golygu y bydd modd uwchraddio'r rhwydwaith, a bydd hynny'n helpu i arbed rhyw £1m o gostau cynnal a chadw sy'n dod o dan gyllid refeniw.
- 5.31** Mae'n cynlluniau yn cynnwys £28.5m o gyfalaf dros dair blynedd i estyn rhaglen Cyflymu Cymru, sy'n ysgogi cyllid Ewropeaidd. Mae cysylltiadau cyfathrebu cyflym yn hanfodol ar gyfer sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol, yn enwedig i helpu busnesau gwledig i ehangu y tu hwnt i'w marchnad leol. Maent yn golygu bod cymunedau lleol yn gallu ffynnu ac maent yn creu cyflogaeth yn lleol.

Seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo

- 5.32** Bydd buddsoddiad cyfalaf o £28m dros dair blynedd yn cael ei ategu gan y derbyniadau a ragwelir drwy werthu eiddo, a buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat a chyllid Ewropeaidd. Mae atebion o ran eiddo yn rhan annatod o'r hyn sy'n cael ei gynnig i fusnesau ac mae'r atebion hynny'n canolbwyntio ar flaenoriaethau gofodol megis y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De ac ailfuddsoddi mewn safleoedd strategol ledled Cymru i hyrwyddo twf a swyddi.

Sgiliau

- 5.33** Rydym yn cydnabod y rôl ehangach sydd gan sgiliau a dysgu gydol oes i'w chwarae mewn datblygu economaidd ac rydym wedi cynnal lefelau cyllid drwy wneud y gorau o gyllid Ewropeaidd. Er bod cyllidebau net o £118.7m yn 2018-19 ac £111m yn 2019-20 yn ostyngiad, mae mwy o gyllid Ewropeaidd o'r un gwerth yn gwrthbwyso hynny. Rheolir cyllid Ewropeaidd ar sail gofynion Llywodraeth Cymru dros gyfnod y prosiectau, gyda chymorth WEFO, felly mae'n helpu i gynnal ein sgiliau, prosiectau ac ymrwymadau.
- 5.34** Rydym wedi ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel ar gyfer pobl o bob oed, yn unol â gofynion economaidd, fel rhan bwysig o'r gwaith o gyflawni Ffyniant i Bawb. Rydym wrthi'n gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd i Gymru, a fydd yn ategu'r ymrwymiad i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd ar gyfer unigolion sy'n barod i gael swyddi, a'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, er mwyn iddynt feithrin y sgiliau a'r profiad i ennill a chadw swyddi cynaliadwy. Bydd y cynllun cyflenwi yn gyfle i edrych yn fanwl ar y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ac ar y seilwaith cyflogadwyedd, a bydd yn cael ei ategu gan gynnig cyflogadwyedd newydd. Bydd y cwbl yn cael ei gyflwyno ar ffurf un cynnig cyflogadwyedd o dan yr enw Cymru'n Gweithio, a fydd yn cynnwys rhaglenni gwahanol ar gyfer oedolion a phobl ifanc, sy'n ffordd well o ddiwallu anghenion y bobl hynny y mae angen cymorth arnynt i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrlon a'i chadw. Bydd y rhaglenni newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2019.

- 5.35** Mae sgiliau sy'n cael eu datblygu drwy brentisiaethau yn cyfrannu at weithgarwch economaidd sy'n ychwanegu mwy o werth. Mae tystiolaeth fod enillion prentisiaid yn uwch drwy gydol eu hoes.
- 5.36** Mae'r rhaglen hyfforddeiaethau'n targedu'r unigolion ifanc sy'n anos eu cyrraedd ac sy'n fwyaf tebygol o fod ac i barhau i fod yn economaidd anweithgar. Nod y rhaglen yw ennyn diddordeb dysgwyr sydd wedi cael eu diflasu gan y dull arferol o addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Yn ogystal â chynnig lleoliadau seiliedig ar waith iddynt, mae'r rhaglen hefyd yn mynd i'r afael â rhwystrau eraill (boed yn rhai addysgol neu'n rhwystrau o fath arall) sy'n eu hatal rhag mynd yn eu blaen i ddysgu ar lefel uwch neu i fyd cyflogaeth. Mae'r ddarpariaeth hon yn chwarae rôl hanfodol o ran lleihau nifer yr unigolion a fyddai, fel arall yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- 5.37** Darperir cyllid refeniw blynyddol o £18.8m i gefnogi Gyrfa Cymru, sy'n is-gwmni ym mherchenogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru ac sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd, dwyieithog, o ansawdd uchel i bobl o bob oed. Bydd mynd ati i wireddu'r weledigaeth yn Newid Bywydau yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad pobl ifanc ac yn rhoi'r sgiliau iddynt fedru rheoli eu gyrfaoedd eu hunain ac i godi eu dyheadau ac anelu'n uwch. Dylai hyn arwain at unigolion sy'n llai tebygol o fod, neu o barhau i fod, yn NEET neu'n ddi-waith, a bydd hynny, yn ei dro, yn fanteisiol i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Trafnidiaeth

- 5.38** Eir ati yn y [Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol](#) i nodi'n blaenoriaethau o ran cyllido trafndiaeth ac i fanylu sut a phryd y gellid mynd ati i wella seilwaith trafndiaeth a rhwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r penderfyniadau'n targedu'r pum prif faes blaenoriaeth: twf economaidd, trechu tlodi, teithio cynaliadwy a diogelwch, gwella mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau, a chreu cymunedau cydlynus.
- 5.39** Wrth wneud penderfyniadau trafndiaeth, un o'r amcanion oedd lliniaru'r effaith negyddol ar grwpiau gwarchoddedig, drwy gynnig parhad gwasanaeth a pharhau i ymateb i anghenion cymunedau lleol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n cael ei ategu gan asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, yr amgylchedd a'r Gymraeg.

Gwaith ar draffyrdd a chefnffyrdd

- 5.40** Mae Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Rydym wedi dyrannu mwy na £300m dros y tair blynedd nesaf er mwyn cynnal y cyflwr a'r lefelau gwasanaeth sy'n ofynnol er mwyn i Lywodraeth Cymru fodloni'r dyletswyddau statudol sydd arni o ran diogelwch.
- 5.41** Er nad yw'r ddarpariaeth gyffredinol yn y gyllideb ar gyfer rheoli'r rhwydwaith ffyrdd wedi newid fawr ddim, diwygiwyd y dyraniadau rhwng y gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf er mwyn adlewyrchu effaith lawn cydymffurfio â'r *Llawlyfr*

Cynnal a Cadw Cefnffyrdd (2016), rhwymedigaethau contractiol a chwyddiant. Yn benodol, bydd y cynnydd o £31m mewn cyllid refeniw yn 2018-19 yn caniatáu inni wneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol ataliol er mwyn gwrthbwysu ymyriadau cyfalaf mwy yn y dyfodol. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ategu gan y buddsoddiad cyfalaf ar gyfer cynlluniau ffyrdd newydd.

- 5.42 Drwy gynnal a chadw ffyrdd yn rheolaidd a rheoli'r rhwydwaith mewn ffordd sy'n gwella diogelwch ar y ffyrdd, gellir osgoi problemau a damweiniau mwy arwyddocaol dros y tymor hwy.
- 5.43 Mae Cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru yn cynnwys £2m i'w fuddsoddi mewn pwyntiau gwefru ychwanegol i gerbydau trydan yn 2018-19 a 2019-20. Bydd hyn yn helpu i ostwng allyriadau carbon.

Gwasanaethau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a'r môr

- 5.44 Ein gweledigaeth yw creu system drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel, sy'n ddiogel, yn fforddiadwy, ar gael i bawb, ac yn gynaliadwy, ac sy'n un y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddi. Bydd creu rhwydwaith trafniadwy integredig ac effeithiol yn gwella rhagolygon cymdeithasol ac economaidd pobl Cymru a'r Gororau, gan gysylltu cymunedau â busnesau a hamdden mewn ffordd fforddiadwy a chynaliadwy.
- 5.45 Mae lefel y gwariant refeniw ar reilffyrdd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blynyddoedd cyntaf y contract newydd ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar y cynigydd a'r ateb a gaiff eu dewis, yn ogystal ag ar drafodaethau sy'n parhau i fynd rhagddynt gyda'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth y DU.
- 5.46 Rhyddhawyd cyllid ychwanegol o £173.2m ar gyfer Metro De Cymru o'r cronfeydd wrth gefn i MEG yr Economi a'r Seilwaith ar gyfer cyfnod tair blynedd y gyllideb cyfalaf hon. Bydd proffil gwirioneddol y gwariant ar gyfer Metro De Cymru yn cael ei bennu unwaith y bydd y cynigydd a'r ateb a ffeirir yn cael eu dewis yn gynnar yn 2018. Rydym hefyd yn cynnal ein hymrwymiad i ddatblygu cynnig ar gyfer Metro Gogledd Cymru a fydd yn cefnogi'n blaenoriaethau trafniadwy ehangach ar gyfer y rhanbarth, gan gynnwys y gwelliannau i'r A548 a'r A55, sy'n rhan o werth £650m o welliannau ehangach i seilwaith y rhanbarth.
- 5.47 Mae gan Trafnidiaeth Cymru Banel Caffael Cynaliadwy a Moesegol sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar ran Llywodraeth Cymru, Network Rail, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, Adeiladu Arbenigrydd yng Nghymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Gwaith y panel yw rhoi sylw i'r cyfleoedd a'r peryglon ehangach ynghylch caffael y metro. Mae hyn yn cynnwys gofynion y gadwyn gyflenwi, gofynion o ran sgiliau, ystyriaethau amgylcheddol a materion diwylliannol.
- 5.48 Rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i fuddsoddiad cyfalaf mewn trafniadwy gyhoeddus, gan ddarparu cyllid cyfalaf ychwanegol o £50m dros gyfnod y gyllideb hon i ddatblygu gorsaf drenau newydd yn Llan-wern. Bydd yn darparu

cyfleusterau parcio a theithio helaeth, yn gwella'r llinell reilffordd ac yn gwella cysylltiadau ar gyfer cymunedau i'r dwyrain o Gasnewydd, gan roi hwb i gyfleoedd i ddatblygu'r economi a chyd-fynd â gwelliannau eraill ym maes trafnidiaeth, megis Metro De Cymru a'r M4. Gan y gallai'r opsiynau ar gyfer cyflawni'r Metro gynnwys gwelliannau i'r cerbydau, rydym wedi cadw cyllid pellach wrth gefn yn barod pe byddai'r opsiwn hwnnw'n cael ddatblygu drwy'r broses gaffael ehangach. Drwy fuddsoddi cyfalaf nawr, disgwylir cyflawni arbedion referniw gwirioneddol yn y dyfodol.

- 5.49** Mae cysyniad y Metro yn gyfle posibl i gyflawni llawer mwy ar gyfer rhanbarthau na gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn unig. Fel rhan annatod o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, bydd y Metro'n sbarduno adfywiad ehangach yn y rhanbarthau, gan helpu i lywio seilwaith economaidd a chymdeithasol y rhanbarthau, symudedd cymdeithasol a chyfle cyfartal.
- 5.50** Bydd cynlluniau seilwaith ffyrdd mawr a nodir yn y cynllun yn lliniaru tagfeydd, yn gwella amseroedd teithio a diogelwch ar y ffyrdd, yn hwyluso datblygiad diwydiannol ac yn cynnig gwell cyfleoedd teithio llesol.
- 5.51** Disgwylir i gynlluniau mawr, gan gynnwys Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Cyffordd 28 ar yr M4, Twneli Bryn Glas, Rhan 2 o'r A465, gael eu cwblhau yn 2019. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys dylunio a chyflenwi nifer o gynlluniau ar draws Cymru, gan gynnwys ar hyd Coridor yr A55; Ffordd Osgoi Llandeilo ar yr A483, a'r A40 rhwng Llanddewi Felfre a Phenblewin.
- 5.52** Bydd y prosiect i ddeuoli'r A465 (Rhannau 5 a 6) yn cael ei gyflawni hefyd drwy gyfrwng y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Mae Cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol i gyflymu'r gwaith o ddarparu seilwaith strategol: gwerth £15m o gyllid cyfalaf yn 2019-20 ar gyfer cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de, yn enwedig yr A487 a'r A470, cyllid referniw er mwyn dylunio a datblygu'r drydedd bont dros Afon Menai a chyllid i ddileu'r tollau ar Bont Cleddau.
- 5.53** Byddwn yn dal i gadw cyllid ar gyfer ffordd liniaru'r M4 yn y cronfeydd wrth gefn, yn amodol ar ganlyniad ymchwiliad cyhoeddus annibynnol, ond byddwn hefyd yn parhau i fwrw ymlaen â gwaith datblygu yng nghyffiniau Casnewydd. Mae'r gwaith hwnnw'n bwysig i ffyniant economaidd Cymru ac mae busnesau Cymru yn gadarn o'i blaid.
- 5.54** Ailbennwyd blaenoriaethau mewn perthynas â chyllid referniw o £1m er mwyn cefnogi'r fframwaith datblygu hedfan sy'n cael ei lunio ar y cyd â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Bydd yn helpu i ddenu mwy o fewnfuddsoddiad drwy gynnig mynediad at farchnadoedd, cyflogaeth, addysg a gwasanaethau.

Teithio cynaliadwy

- 5.55** Drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, rydym yn ysgafnhau'r baich y mae costau teithio yn ei roi ar nifer o aelwydydd sydd mewn angen. Yn ôl tystiolaeth ar lefel y DU, awgrymir mai pobl mewn galwedigaethau cyflog isel,

sgil isel, yn bennaf, sy'n wynebu rhwystrau trafndiaeth. Maent yn effeithio mewn ffordd anghymesur ar bobl ifanc, sy'n fwy dibynnol ar drafndiaeth gyhoeddus er mwyn iddynt fedru manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.

- 5.56** Bydd £25m y flwyddyn yn parhau i fod ar gael ar gyfer y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau er mwyn helpu'r awdurdodau lleol i roi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bysiau a gwasanaethau trafndiaeth gymunedol. O ystyried bod y setliadau yn y gyllideb yn rhai heriol, rydym yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau bysiau lleol fforddiadwy a chynaliadwy, o ansawdd uchel, ar gael yn y tymor hir. Cynhaliwyd uwchgynhadledd bysiau ym mis Ionawr gyda'r diwydiant, awdurdodau lleol, grwpiau defnyddwyr ac adrannau eraill o Lywodraeth Cymru yn trafod gwasanaethau bws cynaliadwy, fforddiadwy. Mae mentrau i gefnogi ac i wella bysiau a thrafndiaeth gymunedol yn un o golofnau'r cynllun trafndiaeth.
- 5.57** Mae'r cyllid refeniw a chyfalaf blyneddol gwerth £60m ar gyfer y cynllun teithio am ddim ar fysiau yn caniatáu i bobl hŷn neu bobl anabl, cyn-filwyr ag anafiadau difrifol a phersonél y lluoedd arfog deithio am ddim ar wasanaethau bysiau lleol ac ar rai trenau ledled Cymru, heb orfod poeni am gostau. Mae diogelu'r gyllideb hon yn cael effaith gadarnhaol ac yn arwain at fanteision anuniongyrchol o ran iechyd a gofal cymdeithasol sy'n hyrwyddo mwy o weithgarwch corfforol a rhyngweithio cymdeithasol. Mae'r ddau yn atal dementia ac afiechydon cysylltiedig eraill rhag dechrau mor gynnar.
- 5.58** Mae teithio llesol yn un o elfennau allweddol gwariant ataliol. Drwy hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o deithio, gallwn leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd, a symbylu pobl i wneud mwy o weithgarwch corfforol. Byddwn yn parhau i gynnal a chadw ffyrdd ac i reoli'r rhwydwaith er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac osgoi problemau a damweiniau mwy arwyddocaol dros y tymor hwy.
- 5.59** Ar ôl llwyddiant Fy Ngherdyn Teithio, rydym wedi blaenoriaethu cyllid o £1m yn 2018-19 a 2019-20 er mwyn i bobl ifanc 16, 17 a 18 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru gael teithio'n rhatach ar fysiau.
- 5.60** Drwy Gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, dyrannwyd gwerth £0.2m o gyllid ychwanegol y flwyddyn i uwchraddio rhwydwaith Traws Cymru o fysiau i goetsys.

Diwylliant

- 5.61** Ein nod yw creu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu drwy ddarparu cyllid ar gyfer ein sefydliadau diwylliannol a threftadaeth cenedlaethol. Yn ogystal â chael cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn hefyd, lle bo hynny'n briodol, greu eu hincwm eu hunain o ffynonellau masnachol a ffynonellau eraill er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- 5.62** Rydym wedi cynnal adolygiad o wasanaethau treftadaeth yng Nghymru, ac wedi comisiynu astudiaeth *Buddsoddi yn y Dyfodol i Warchod y Gorffennol*, er

mwyn creu hunaniaeth unedig gryfach i sector treftadaeth Cymru a fydd yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, ac mae'n nodi cyfleoedd i gymryd camau i atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae gofyn i gyrrff gydweithio ar eu gweithgareddau a'u strategaethau marchnata, ac mae hyn yn ein galluogi i gael amcanion llesiant sydd â nodau cyffredin ar draws bob sefydliad.

5.63 Mae'r dyraniadau yn y gyllideb yn adlewyrchu'n hymrwymiad i gadw'n polisi o fynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol, sy'n bwysig os ydym am ddarparu gwasanaethau cynhwysol. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau i warchod cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl ynghyd, yn enwedig llyfrgelloedd, amgueddfeydd a chanolfannau celfyddydau.

5.64 Bydd cyllid rheolaidd ychwanegol o £2.2m yn 2018-19 a 2019-20, sy'n rhan o Gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, yn galluogi'n cyrrff diwylliannol cenedlaethol – Cyngor y Celfyddydau, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Chyngor Llyfrau Cymru – i barhau â'r gwaith y maent yn ei wneud i hyrwyddo cenedl â diwylliant bywiog. Bydd yn eu galluogi hefyd i ddiogelu swyddi yn y sector.

Arweinyddiaeth strategol ar gyfer gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd

5.65 Bydd cyllid referniw ychwanegol o £0.250m ar gyfer rhaglen Cyfuno yn galluogi sefydliadau diwylliannol i gyfrannu at agenda gwrthdlodi gyffredin drwy ddatblygu cyfleoedd cyffrous, newydd i bobl sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gan wyth partneriaeth gysylltiadau â chyflogadwyedd, grymuso, y blynyddoedd cynnar a dysgu fel teulu, ac iechyd a llesiant, ac maent yn cael eu targedu at y bobl hynny sydd yn yr angen mwyaf. Bydd cyllid cyfalaf ychwanegol o £5m yn 2019-20, fel rhan o Gytundeb y Gyllideb, yn golygu y bydd modd bwrw ymlaen â'r gwaith o gynnal astudiaethau dichonoldeb ar oriel gelfyddyd gyfoes ac amgueddfa bêl-droed.

Meithrin defnydd a dysgu gydol oes drwy wasanaethau llyfrgelloedd

5.66 Cafodd y rhaglen cyfalaf cynnal a chadw ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru ei hailasesu yn 2017-18 yn sgil amseriad y gwaith. Cafodd y gyllideb cyfalaf diangen ei hailbennu fel y bo modd bwrw ymlaen yn gynt â chynlluniau seilwaith ffyrdd yn 2017-18, ac fe fydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae cyllideb cyfalaf ychwanegol o £5.7m ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol dros y cyfnod o dair blynedd yn adfer cyllid ar gyfer y rhaglen cynnal a chadw arfaethedig yn y blynyddoedd i ddod.

Deddfwriaeth

5.67 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wrthi'n cael ei gweithredu ac mae iddi dri phrif nod:

- Gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig mewn ffordd fwy effeithiol;

- Rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cynaliadwy;
- Sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am yr amgylchedd hanesyddol yn fwy tryloyw ac atebol.

5.68 Bydd y Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn cael ei sefydlu unwaith y bydd yr achos busnes sy'n edrych ar yr opsiynau ar gyfer trefniadau llywodraethu Cadw yn y dyfodol wedi cael ei ystyried a'i gytuno.

Crynodeb

5.69 Wrth fynd ati i lunio'n cynlluniau gwario, rydym wedi ceisio lleihau'r effaith y bydd cyllidebau llai yn ei chael ar swyddi a thwf cynaliadwy ac ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Dros y tymor hwy, rydym yn cydnabod bod angen cydweithio gyda'n partneriaid a chydweithio er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwell canlyniadau. Rydym yn parhau i gynnwys ein holl randdeiliaid, gan geisio cyfraniadau a fydd yn llywio'r penderfyniadau a wnawn yn y dyfodol er mwyn inni fedru sicrhau ffyniant i bawb.

Pennod 6 - Addysg


- 6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau personol. I wneud hyn, rhaid i ni gyfuno tegwch a rhagoriaeth wrth godi safonau ar draws ein system addysg.
- 6.2 Mae'r gwaith o lunio ein cwricwlwm newydd yn mynd rhagddo'n dda; bydd yn sail i'n holl ddiwygiadau i ysgolion, a fydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer symud ymlaen i addysg ôl-orfodol a dysgu gydol oes.
- 6.3 Mae safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon; darpariaeth gryfach ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn y ddwy iaith; trefniadau asesu ffurfiannol; ymrwymiad i nodi a chefnogi arweinyddiaeth; a diwygio ein darpariaeth ddysgu ychwanegol yn flaenoriaethau allweddol, fel y gwelir yn *Ffyniant i Bawb*, i helpu pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial.
- 6.4 Ym mis Medi, cyhoeddwyd ein cynllun gweithredu newydd [Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl](#) (2017-21). Mae'r cynllun hwn, sy'n canolbwyntio ar weithredu'r cwricwlwm newydd, yn amlinellu amserlenni a chamau gweithredu mewn perthynas ag arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, cyflawni rhagoriaeth a thegwch o fewn system hunanwella. Mae pob polisi yn ceisio codi safonau i bawb; lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg y bydd y genedl i gyd yn falch ohoni ac â hyder ynddi.
- 6.5 Rydym am weld plant a phobl ifanc â'r agweddau at ddysgu sydd eu hangen arnynt ar gyfer gweddill eu bywydau; sy'n gallu ymuno â'r byd gwaith yn hyderus a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae addysg bellach ac uwch yn eu cynnig. Rydym yn cyflwyno system gynllunio strategol newydd ar gyfer addysg ôl-16. Byddwn hefyd yn sicrhau llwybrau dilyniant clir drwy a rhwng addysg bellach ac uwch, fel bod llwybr dysgu'r unigolyn yn diwallu ei anghenion a'i ddyheadau ac yn darparu'r staff medrus sydd eu hangen ar gyflogwyr i gefnogi economi a chymunedau Cymru.

Cyllideb Ddrafft 2018-19

- 6.6 Yn 2018-19, bydd y MEG Addysg yn £1,634m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £1,466m o adnoddau, £168m o gyfalaf a £530m o wariant a reolir yn flynyddol (AME).
- 6.7 Y cyllid dangosol ar gyfer 2019-20 yw £1,436m o adnoddau, £176m o gyfalaf a £678m o AME.
- 6.8 Cyllid cyfalaf dangosol 2020-21 yw £154m.

Prif feysydd gwariant

6.9 Mae'r siart isod yn dangos dyraniad cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf 2018-19 ar draws prif weithgareddau'r MEG.



*Mae AME wedi'i gynnwys o fewn y MEG hwn gan fod y rhan fwyaf yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr

Ysgolion

6.10 Mae'r MEG Addysg yn cefnogi'r gwaith o weithredu *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, ac mae wedi'i strwythuro yn erbyn y prif amcanion:

- Cwricwlwm sy'n gweddnewid
- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

6.11 Wrth gyflawni hyn, byddwn yn helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial, meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes. Byddwn hefyd yn sicrhau bod pawb yn meddu ar y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid.

6.12 Yn ogystal â'r cyllid craidd a ddarperir i ysgolion drwy setliad llywodraeth leol, mae'r MEG Addysg yn dyrannu cyllideb referniw o £314m yn 2018-19 a £302m yn 2019-20 i ysgolion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill. Bydd y gwariant, yn ei hanfod, yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc yn gyffredinol ac mae'n bwysig dan Erthygl 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – mae gan blant yr hawl i addysg.

Bydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar drechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol gan ei fod o fudd i grwpiau gwarchoddedig.

Cyllid grant wedi'i neilltuo

6.13 Bydd y penderfyniad ar draws y Llywodraeth i symud o gyllid grant wedi'i neilltuo i gyllid grant heb ei neilltuo yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i lywodraeth leol gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer ysgolion. Cyllidebwyd £2.142bn o gyllid i ysgolion eleni, cynnydd o'r £2.123bn llynedd.

Grant Gwella Addysg

6.14 Mae'r Grant Gwella Addysg yn helpu i wella deilliannau addysg i bob dysgwr ar draws pob cyfnod allweddol. Caiff y rhan fwyaf o'r grant ei ddirprwyo i ysgolion gyda'r consortia rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o weithredu *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*.

6.15 Yn ystod 2018-19 a 2019-20, bydd elfen y grant yn gostwng £26m - o £133m yn 2017-18 i £107m yn 2019-20, fel rhan o'r penderfyniad ar draws y Llywodraeth i symud o gyllid grant wedi'i neilltuo i gyllid grant heb ei neilltuo.

6.16 Caiff y penderfyniad hwn ei wneud yng nghyd-destun yr angen i roi nwy o hyblygrwydd i lywodraeth leol gyflawni ac i sicrhau bod llywodraeth leol yn defnyddio'r adnoddau yn y ffordd fwyaf cynaliadwy i gyflawni blaenoriaethau a bod pob dysgwr yn gallu cyflawni ei botensial. Yn dilyn lansiad ein cynllun gweithredu, proffil uwch tegwch, rhagoriaeth a llesiant, ac ar ôl profi'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu drwy dargedu cyllid, mae'r newidiadau hyn yn ymrwymiad i ddull craidd o helpu llywodraeth leol i gefnogi ein dysgwyr.

6.17 Mae'r grant gwella addysg yn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen ac yn ffynhonnell allweddol o gymorth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar, gan helpu disgyblion i ddatblygu'r hyder i ddysgu a chryfhau i wynebu heriau yn y dyfodol. Mae hefyd yn cefnogi'r Gymraeg drwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol.

Grant Datblygu Disgyblion

6.18 Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn helpu i wella deilliannau dysgu ar gyfer dysgwyr difreintiedig. Caiff ysgolion a chonsortia rhanbarthol eu hariannu i gefnogi ymyriadau sy'n codi cyrhaeddiad addysgol dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (e-FSM) a'r rheini sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r bwch cyrhaeddiad a fyddai o bosib wedi datblygu fel arall i'r dysgwyr hyn.

6.19 Ar ôl cynyddu'r gyllideb yn sylweddol mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r cyllid ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20 wedi'i gynnal ar y lefelau presennol, gyda chyllideb gyffredinol o £93.7m.

6.20 Yn unol â *Ffyniant i Bawb*, sy'n nodi'r blynyddoedd cynnar fel blaenoriaeth, rydym wedi cynnal y buddsoddiad uwch yn elfen blynyddoedd cynnar y grant.

Yn ôl gwaith ymchwil, ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar yw'r ffordd fwyaf llwyddiannus o sicrhau bod plentyn yn datblygu ac yn cyrraedd ei lawn botensial, gan dorri'r cylch o dangyflawni yn yr ysgol ac fel oedolion. Mae'r ymyriadau'n cynnwys datblygiad iaith cynnar; cymorth rhianta; trefniadau pontio i'r Cyfnod Sylfaen; a dulliau ysgol gyfan fel systemau olrhain effeithiol sy'n nodi anghenion unigol.

6.21 Mae *tystiolaeth* gan ein partneriaid gwerthuso, Estyn a'n Heiriolwr Codi Cyrhaeddiad (Syr Alasdair Macdonald) yn cefnogi'r farn bod y rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud penderfyniadau gwybodus a phriodol ar sut i wario dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae Ipsos MORI / WISERD wedi cyhoeddi dau adroddiad gwerthuso sydd wedi darparu dystiolaeth ynghylch y newidiadau sy'n digwydd mewn ysgolion. Bydd y trydydd adroddiad gael ei gyhoeddi'n fuan. Bydd adroddiad y gwerthusiad cyntaf o'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar hefyd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

6.22 Caiff *canlyniadau'r* gwerthusiadau hyn eu defnyddio i bennu'r cyfeiriad polisi ac i ddarparu cymorth mwy penodol a nodi arferion gorau o dan y buddsoddiad hwn.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

6.23 Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes becyn cymorth gwerth £20m ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fydd yn hwyluso a chefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Yn ogystal â helpu partneriaid i bontio i'r system newydd a'i chyflawni, bydd yn gwella perthynas ac arferion gwaith. Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ffordd newydd o roi'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith, ac fe fyddwn yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sy'n cael eu darparu gennym yn cael eu targedu, yn brydlon ac yn effeithiol.

Gwella safonau mewn ysgolion

6.24 Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £100m ychwanegol yn ystod tymor y Cynulliad i wella safonau mewn ysgolion.

6.25 Yn ystod 2018-19 a 2019-20, buddsoddwyd £25m a £25.5m yn ychwanegol yn eu tro i godi safonau ysgolion. Bydd y cyllid yn datblygu ac yn cefnogi ystod o gamau gweithredu i sicrhau gwell system ysgolion i Gymru. Bydd yn helpu i wella arferion yn y dosbarth fel rhan o ddull ataliol i wella cyfleoedd dysgwyr yn y dyfodol. Mae'r cynigion wedi'u profi ar y cyd gyda rhanddeiliaid allweddol.

6.26 O ran yr elfen o'r cyllid hwn a gyfeirir drwy'r consortia, fe fyddant yn cael eu hannog i nodi meysydd lle gall y pedwar rhanbarth gydweithio er budd pawb i sicrhau rhagor o effeithlonrwydd a manteisio ar arbenigedd ehangach, gan gynnwys meithrin cysylltiadau â diwydiant ac addysg uwch a phellach er enghraifft ar faterion fel codio a sgiliau digidol ac addysg gychwynnol athrawon.

Diwygio'r cwricwlwm

- 6.27** Yn 2018-19 a 2019-20, bydd cyllid o £10m ar gael bob blwyddyn ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Bydd y cyllid hwn yn helpu ysgolion arloesi ac arbenigwyr cenedlaethol a rhyngwladol i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae cydweithio a chynnwys y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion yn elfennau hanfodol o'r gwaith hwn. Mae Cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru yn cynnwys £1m y flwyddyn i ariannu mentrau cerddoriaeth mewn ysgolion.
- 6.28** Bydd cwricwlwm eang a chytbwys sy'n fwy cynhwysol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn fwy gwydn ac yn gallu addasu i'r newidiadau a'r heriau sy'n debygol o'u hwynebu yn y dyfodol. Byddant yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac yn deall yn well eu lle yn y byd a'r effaith y maent yn ei chael arno. Fel unigolion iach a hyderus bydd plant a phobl ifanc Cymru yn cael eu parchu a'u herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu, ac yn cael eu helpu i oresgyn rhwystrau.

Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

- 6.29** Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yw'r buddsoddiad mwyaf yn ein seilwaith addysg ers y 1960au. Bydd y rhaglen yn sicrhau bod ysgolion a cholegau yn addas i'r diben er mwyn darparu addysg effeithiol. Mae'r rhaglen yn cyfrannu at ddyheadau *Ffyniant i bawb* ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*.
- 6.30** Caiff y buddsoddiad yn ein seilwaith addysg ei wneud fesul cam.
- Mae Band A yn fuddsoddiad o fwy na £1,400m dros gyfnod o bum mlynedd sy'n dod i ben yn 2018-19. Bydd ardaloedd pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yn elwa o'r rhaglen fawr hon i wella ysgolion, a fydd yn fodd i ailadeiladu neu ailwampio dros 150 o ysgolion a cholegau.
 - Mae Band B wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd y cam hwn yn dechrau yn 2019.
- 6.31** Bydd y rhaglen yn lleihau nifer yr ysgolion a cholegau sydd mewn cyflwr gwael; lleihau'r capasiti dros ben a mynd i'r afael â chyflenwad digonol o leoedd; a chynyddu effeithlonrwydd y stoc o adeiladau. Caiff 50% o'r rhaglen gyfalaf hon ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, a'r gweddill gan yr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.
- 6.32** Mae'r holl brosiectau sy'n cael eu hariannu yn gofyn i'n partneriaid ddangos eu bod yn gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a darparu cyfleoedd ychwanegol i gael manteision ehangach drwy ddefnyddio asedau yn hyblyg. Mae manteision i'r gymuned yn bwysig tu hwnt ac rydym wedi gosod targedau a meincnodau i fonitro meysydd fel creu swyddi, prentisiaethau, hyfforddiant, ymgysylltiad STEM, llafur lleol a defnydd cadwyni cyflenwi lleol.
- 6.33** Bydd dyraniad ychwanegol o £40m dros 2018-19 a 2019-20 ym Mand A yn fodd i gyflymu'r broses o ddechrau'r cam nesaf o gyllid. O 2018-19 ymlaen,

mae'r gyllideb yn cynnwys dyraniad o £20m mewn perthynas â'r cynnig gofal plant ar gyfer cymorth seilwaith ychwanegol.

- 6.34** Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae pob un o'n hysgolion a cholegau newydd wedi'u cynllunio i fod yn effeithlon o ran ynni. Un o ofynion y cyllid grant yw bod pob prosiect adeiladau newydd yn cyflawni gradd EPC A, sy'n dangos eu bod yn effeithlon o ran ynni, ac achrediad Rhagorol BREEAM, sy'n dangos cynaliadwyedd. Hefyd mae ein contractau'n nodi bod angen defnyddio deunydd eildro 15% wrth adeiladu.
- 6.35** Mae'r rhaglen hon wedi lleihau capasiti'r dros ben, gan sicrhau bod ysgolion a cholegau yn y cyflwr gorau posibl, yn y lleoliad cywir ac yn cynnwys y nifer cywir o fyfyrwyr. Golyga hyn ystâd fwy effeithlon, lle mae ysgolion a cholegau o'r maint iawn, fel nad yw ynni'n cael ei ddefnyddio mewn adeiladau sy'n rhy fawr.
- 6.36** Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddarparu asedau hirdymor. Rydym yn adeiladu ar y cyd, gan gydweithio â'n partneriaid. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau manteision ehangach drwy ddarparu cyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel mewn ysgolion a cholegau, gan gyfrannu at iechyd a lles y myfyrwyr a'r gymuned ehangach; drwy gynlluniau cymunedol sy'n ceisio creu swyddi newydd a hyfforddiant a darparu asedau effeithlon a chynaliadwy; a thrwy gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu yn y Gymru ddigidol.
- 6.37** Mae buddsoddi mewn adeiladau ysgolion a cholegau yn sicrhau dyfodol hirdymor ar gyfer myfyrwyr ac athrawon yng Nghymru, ac yn darparu'r cyfleusterau i greu cyfleoedd i'r rheini sy'n dysgu yn yr amgylcheddau hyn waeth beth yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol.

Addysg ôl-16

- 6.38** Mae addysg ôl-16 yn bwysig wrth helpu i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) a chynyddu lefel sgiliau pobl ifanc cyn iddynt ddechrau gweithio neu symud ymlaen at addysg uwch. Mae'n cefnogi'n uniongyrchol ein huchelgais ar gyfer cyflogadwyedd, ac yn ganolog i'n dull gweithredu llywodraeth gyfan ar gyfer cynyddu ffyniant a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi tlodi mewn ffordd fwy effeithiol a chyson.
- 6.39** Ceir dyraniad o £406.4m yn 2018-19 a £396.6m yn 2019-20 ar gyfer addysg ôl-16.
- 6.40** Mae addysg bellach yn ceisio diwallu anghenion economaidd Cymru yn yr hirdymor drwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Gyda hyn mewn cof, rydym yn cadw'r cyllid referniw ar gyfer sefydliadau addysg bellach ar yr un lefel â 2017-18, ac yn buddsoddi £10m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2018-19 ac yn 2019-20. Caiff £5m o'r cyllid ychwanegol hwn ei defnyddio ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol mewn sefydliadau addysg bellach, a'r £5m arall i brynu cyfarpar sy'n bodloni safonau diwydiant. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn hyfforddi ac yn ymarfer ar gyfarpar sy'n debyg i'r hyn y byddant yn dod ar eu

traws yn y gweithle, yn enwedig mewn meysydd fel dylunio â chymorth cyfrifiadur ac argraffu 3D. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu colegau i wella ansawdd eu darpariaeth a'i pherthnasedd mewn byd modern.

- 6.41** Fel rhan o'r broses o resymoli grantiau llywodraeth leol, rydym wedi nodi gostyngiad o £9.8m i'r gyllideb ar gyfer chweched dosbarth ysgolion yn 2019-20, a gostyngiad o £0.4m yn y gyllideb ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn 2018-19 a 2019-20. Byddwn yn cydweithio'n agos â phob sector i sicrhau bod unrhyw ostyngiadau yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar y dewisiadau a gynigir; ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Addysg uwch

- 6.42** Mae gan addysg uwch rôl allweddol yn y gwaith o dorri'r cylch tloedi drwy wella lefelau sgiliau, a gwella cyflogadwyedd a chyfleoedd am waith. Gall graddedigion ddisgwyl elwa'n fawr ar eu buddsoddiad, gan ennill premiwm cyflog yn ystod eu bywydau gwaith.
- 6.43** Ceir dyraniad o £1,226m yn 2018-19 sy'n cynnwys £696m o gyllid adnoddau a £530m o wariant a reolir yn flynyddol, sy'n ariannu benthyciadau myfyrwyr a £1,366m yn 2019-20 sy'n cynnwys £688m o gyllid adnoddau a £678m o wariant a reolir yn flynyddol.
- 6.44** Mae addysg uwch yn cefnogi sgiliau a chyflogadwyedd yn uniongyrchol, gan y bydd atgyfnerthu rhagoriaeth ymchwil yn golygu bod modd parhau i ddatblygu gweithlu gyda sgiliau lefel uchel a chynyddu cyflogadwyedd gweithlu Cymru. Ceir manteision pellgyrhaeddol i Gymru o fuddsoddi mewn ymchwil. Mae'n arwain at fuddsoddiad gan fusnesau, creu swyddi a thwf busnes a hefyd manteision o ran iechyd a lles a gwelliannau amgylcheddol. Caiff ymchwil yng Nghymru ei chydabod ar lefel ryngwladol ac mae'n hybu enw da Cymru ar draws y byd drwy roi cyfle i eraill weithio, astudio a buddsoddi yma.
- 6.45** Roedd adolygiad yr Athro Ian Diamond o addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr yn argymhell y dylid diwygio'r system bresennol yn llwyr. Rydym yn rhoi pecyn Diamond ar waith, gyda rhai mân newidiadau, gan gyflwyno dull system gyfan ar draws modd a lefel astudio. Dyrannwyd £5m ychwanegol ar gyfer 2018-19 a £5 pellach yn 2019-20 i'r llinell wariant cymorth myfyrwyr er mwyn gweithredu cam cyntaf diwygiadau Diamond a gwarchod y cohort. Cwblhawyd yr adolygiad â thystiolaeth amrywiaeth eang o randdeiliaid, ac fe fydd gweithredu'r adolygiad yn darparu sefydlogrwydd tymor hir i'r system.
- 6.46** Fel rhan o Gytundeb y Gyllideb â Phlaid Cymru, mae £20m o gyllid ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach wedi'i ddyrannu yn 2018-19 a 2019-20 i gynnal y cyllid ar lefelau 2017-18, a bydd hyn yn galluogi'r sectorau i baratoi ar gyfer gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond. Yn unol â chanfyddiad Adolygiad Diamond, bydd yr arian hwn yn annog cydweithio agosach rhwng y sectorau wrth baratoi ar gyfer diwygiadau i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET).

- 6.47** Rydym yn cynyddu lefelau cyllido'r cam gweithredu addysg uwch £4.1m yn 2018-19 a £20.4m yn 2019-20 o gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf. Mae'r cynnydd hwn yn gyson ag ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond, a bydd yn galluogi CCAUC a sefydliadau addysg uwch i baratoi ar gyfer ail gam y broses ddiwygio a'i rhoi ar waith.
- 6.48** Er gwaetha'r cyllid ychwanegol mewn meysydd eraill, gwelwyd gostyngiad cyffredinol o £3.2m yn 2018-19 a £24m pellach yn 2019-20 o'i gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer cymorth i ddysgwyr ôl-16. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf ar dueddiadau demograffig ar gyfer nifer y bobl ifanc 18 oed yng Nghymru, sy'n awgrymu y bydd y niferoedd cyffredinol a'n hamcangyfrifon o'r galw am grantiau yn parhau i ostwng.
- 6.49** Cyfanswm o £30m – £10m y flwyddyn - wedi'i ddyrannu ar gyfer addysg uwch i leihau'r capasiti dros ben wrth symud tuag at ystad fwy effeithiol, diwastraff ac effeithlon o ran ynni. Bydd y cynllun yn galluogi prifysgolion i ddechrau lleihau unrhyw orbenion sy'n gysylltiedig â hen ystadau. Bydd hefyd yn eu helpu i baratoi ar gyfer cyfnod o ddiwygiadau rheoleiddiol ac ariannol sylweddol ynghyd â newidiadau yn ymddygiad myfyrwyr.
- 6.50** Wrth osod cylch gorchwyl ar gyfer CCAUC rydym wedi dweud ein bod yn disgwyl i brifysgolion, fel sector sylweddol yng Nghymru, gytuno i ddilyn y cod caffael moesegol ac ymrwymo i symud tuag at fod yn gyflogwyr cyflog byw, fel y mae Prifysgol Caerdydd a'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi gwneud eisoes.

Y Gymraeg

- 6.51** Cafodd strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n cynnwys ymrwymiad ar draws y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Y gyllideb a ddyrannwyd yw £38.3m ym mhob blwyddyn ariannol.
- 6.52** Caiff y gyllideb hon ei defnyddio i gefnogi'r canlynol:
- Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
 - Darparu hyfforddiant i ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol;
 - Darparu hyfforddiant Cymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
 - Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;
 - Cynnal gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg;
 - Cyllid ar gyfer y Comisiynydd Iaith;
 - Cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- 6.53** Caiff hynt y gwaith o gyflawni amcanion a thargedau'r strategaeth ei fonitro, a rhoddir ystyriaeth lawn i werth am arian ac opsiynau ar gyfer darpariaeth amgen wrth i gontractau a chytundebau ddod i ben.

- 6.54** Drwy roi cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg, rydym yn cefnogi unigolion i wella eu rhagolygon o ran gwaith fel ffordd allan o dlodi. Mae'r gyllideb yn cefnogi addysgu'r Gymraeg mewn addysg statudol, addysg ôl-16 ac addysg i oedolion; gan sicrhau bod pawb sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg yn cael cyfle i wneud hynny.
- 6.55** Mae Cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru yn cynnwys cyllid cyson o £5m i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am y Gymraeg yn 2018-19 a 2019-20, a chyllid ychwanegol i'r Mudiad Meithrin a gwell darpariaeth o adnoddau addysg dwyieithog.

Crynodeb

- 6.56** Mae ffyniant, cydlyniant a llesiant cenedl yn seiliedig ar system addysg lwyddiannus. Rydym wedi ymrwmo i lwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau personol. Dyma Gyllideb a fydd yn cefnogi dyheadau pobl, boed yn alwedigaethol neu'n academiaidd, a gweithio gyda busnesau, byd addysg a darparwyr sgiliau i ddarparu'r cyfleoedd cywir i bawb.

Pennod 7 - Yr Amgylchedd a Materion Gwledig


- 7.1 Rydym am helpu Cymru i fod yn gymdeithas carbon isel, prin ei gwastraff a rhad-ar-ynni. Mae'r hinsawdd yn debygol o barhau i newid ac mae hynny'n golygu y bydd gofyn inni leihau'n hallyriadau carbon ymhellach a mynd ati i reoli'r peryglon i iechyd, llesiant a chymunedau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu creu.
- 7.2 Parhau y mae'n hymrwymiad i'n huchelgeisiau yn [Ynni Cymru](#), sef defnyddio ynni'n fwy effeithlon, lleihau ein dibyniaeth ar ynni o danwyddau ffosil a rheoli'r newid i economi carbon isel yn effeithlon.
- 7.3 Mae diogelu a chyfoethogi'n hamgylchedd naturiol a hanesyddol a defnyddio tir mewn ffordd gynaliadwy'n bwysig i lesiant tymor hir Cymru. Mae'n Rhaglen Datblygu Gwledig yn gyfrwng inni ariannu gweithgareddau sy'n helpu cefn gwlad a chymunedau gwledig i reoli amaethyddiaeth a'r amgylchedd mewn ffordd gynaliadwy fel rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- 7.4 Mae ein moroedd a'n harfordiroedd yn adnoddau naturiol pwysig. Maen nhw'n cynnal cyfoeth o fywyd gwyllt a llawer o bysgodfeydd masnachol llwyddiannus. Maen nhw'n cyfrannu'n sylweddol at sectorau economaidd fel twristiaeth, porthladdoedd, cludiant mewn llongau ac ynni amgen.

Cyllideb Ddrafft 2018-19

- 7.5 Yn 2018-19, mae MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn £346m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £243m o adnoddau, £101m o gyfalaf, a £2.4m o wariant a reolir yn flynyddol (AME).
- 7.6 Y cyllid dangosol ar gyfer 2019-20 yw £234m o adnoddau, £88m o gyfalaf a £2.4m o AME.
- 7.7 Cyllid cyfalaf dangosol 2020-21 yw £78m.
- 7.8 Yn unol â'r ymdrech i leihau'r costau gweinyddol sydd ynghlwm â grantiau penodol a rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn, mae'r gyllideb hon yn trosglwyddo £35m yn 2018-19 o'r grant refeniw sengl amgylcheddol i'r grant cynnal refeniw llywodraeth leol.

Prif feysydd gwariant

7.9 Mae'r siart isod yn dangos dyraniad cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf 2018-19 ar draws prif weithgareddau'r MEG.



Trin gwastraff a defnyddio adnoddau'n effeithlon

7.10 Mae gennym hanes llwyddiannus o gynyddu cyfraddau ailgylchu ym mhob rhan o Gymru. Yn wir, Cymru sydd â'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y DU, yr ail orau yn Ewrop a'r trydydd gorau yn y byd.

7.11 Gan adlewyrchu'r pwysau sydd ar ein cyllideb, rydym wedi gostwng y cyllid refeniw a gedwir o fewn y MEG ar gyfer y grant refeniw strategol amgylcheddol i lywodraeth leol £1.5m yn 2018-19 a £3m yn 2019-20. I leddfu effaith y gostyngiadau hyn, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn mwy o gyfleusterau i helpu Cymru i wynebu her y strategaeth dim gwastraff. Byddwn yn parhau hefyd i fuddsoddi mewn prosesau trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol a hwyluso'r trefniadau caffael. Bydd hynny'n cynnwys ynni o wastraff. I fynd â'r maen i'r wal yn hyn o beth, rydym wedi neilltuo £4m yng ngwaelodlin cyfalaf

gwastraff dros y tair blynedd nesaf i ariannu'r rhaglen newid gydweithredol a'r rhaglen caffael gwastraff.

- 7.12 Mae cyllideb cyfalaf gwastraff ar gyfer 2019-20 hefyd yn cynnwys buddsoddiad o £6.5m yng nghronfa buddsoddi cyfalaf yr economi gylchol. Er mwyn cynyddu'i gyfraniad at y nodau llesiant, un o flaenoriaethau allweddol y polisi yw cynyddu elfennau ailddefnyddio ac ailgylchu'r economi gylchol yng Nghymru.
- 7.13 Yn y gyllideb hon, rydym yn trosglwyddo £35m o grant refeniw sengl amgylcheddol penodol llywodraeth leol i'r Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol sydd heb ei neilltuo er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i lywodraeth leol.
- 7.14 Mae Cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru yn cynnwys £0.5m o gyllid yn 2018-19 er mwyn profi pa mor ymarferol yw cynllun ad-dalu blaendal am wydr a chaniau.

Rheoli perygl llifogydd ac arfordirol

- 7.15 Mae buddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd yn ataliol. Mae gwario arian refeniw ar waith cynnal a chadw yn lleihau'r risg y gwnaiff asedau dorri ac felly'n osgoi'r angen am wariant ar waith trwsio argyfwng, prynu ased newydd neu wariant sy'n gysylltiedig â llifogydd, gan gynnwys difrod i eiddo a busnes, a gall hefyd osgoi colli bywydau.
- 7.16 Rydym yn buddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordirol drwy ystod o wahanol ffynonellau cyllido.
- 7.17 Rydym wedi diogelu'r gyllideb refeniw dros y ddwy flynedd ar gyfer y rhaglen rheoli perygl llifogydd ac arfordirol gan roi cyllideb o £22.3m yn 2018-19 a £24.7 yn 2019-20.
- 7.18 Rydym yn neilltuo cyfalaf gwerth £7.5m ar gyfer llifogydd a fydd yn datblygu cynlluniau addasu arfordirol ledled Cymru, gan gynnwys gwaith hanfodol ar lan y dŵr yng Nghasnewydd. Mae hyn yn golygu ein bod yn bwriadu buddsoddi cyfanswm o £89.5m o gyfalaf mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordirol dros y tair blynedd nesaf.
- 7.19 Yn ogystal â hynny, daw ein rhaglen rheoli risg arfordirol arloesol yn weithredol yn 2019-20, a chaiff £150m ei fuddsoddi dros oes y rhaglen. Mae'r refeniw ychwanegol o £2.4m yn 2019-20 yn cychwyn ffrwd refeniw tymor hir drwy fenter benthyca llywodraeth leol.

Tlodi tanwydd

- 7.20 Mae gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai yn arwain at fanteision iechyd, yn creu swyddi ac yn cefnogi busnesau lleol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl a sefydliadau sydd am ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Mae nifer o'r gwasanaethau a arferai gael eu darparu drwy wasanaeth Cymru Effeithlon bellach yn cael eu darparu gan wasanaethau eraill, i osgoi dyblygu ac i sicrhau

bod yr wybodaeth a roddir yn gyson. O ganlyniad, daeth gwasanaeth Cymru Effeithlon i ben yn ystod 2017-18. Arweiniodd hyn at arbediad o £1m yn 2018-19 yn y gwariant ar raglenni arbed ynni.

- 7.21** Rydym wedi parhau i gefnogi'n prif gynlluniau tlodi tanwydd, gan gynnwys Nyth ac Arbed, sy'n rhan bwysig o'n gwaith i leihau nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n cael trafferth cadw eu cartrefi'n gynnes a thalu am filiau ynni uchel. Y ffordd fwyaf effeithiol o drechu tlodi tanwydd yn y tymor hir yw trwy wneud ein cartrefi'n fwy ynni effeithiol. Trwy roi sylw i dlodi tanwydd, rydym yn helpu i fynd i'r afael â nifer o'i effeithiau, gan gynnwys: afiechydon sy'n deillio o oerfel, mwy o farwolaethau yn y gaeaf, cyrhaeddiad addysgol plant a phobl sy'n colli ysgol a gwaith oherwydd salwch.
- 7.22** Mae tua £18m o gyllid cyfalaf yn cael ei neilltuo i Nyth bob blwyddyn i sicrhau ei gynaliadwyedd a'n bod yn cael gwerth ein harian. Mae'r UE wedi neilltuo arian i gyfateb i'r cyfraniad domestig o £4m y flwyddyn i Arbed 3 sy'n golygu £34m i'r cynllun dros dymor y llywodraeth.

Iechyd a lles anifeiliaid - Dileu ac iawndal Twbercwlosis

- 7.23** Y ni sy'n gyfrifol am reoli ac os oes modd, am ddileu clefydau anifeiliaid yng Nghymru, hynny i wella iechyd a lles ein hanifeiliaid.
- 7.24** Rydym wedi diogelu'r buddsoddiad yn y cyllidebau dileu TB ac iechyd a lles anifeiliaid. Rydyn ni'n sylweddoli bod sawl ffordd o ddileu TB gwartheg a bydd angen mynd i'r afael â'r clefyd o bob cyfeiriad.
- 7.25** Yn dilyn ymgynghoriad yn gynharach eleni, caiff ystod o fesurau eu cyflwyno ym mhob un o'r rhanbarthau TB newydd. Maen nhw wedi'u creu i wella'r rhaglen TB ac i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Gellir talu trwy'r gyllideb gwaith maes bresennol.
- 7.26** Law yn llaw â'r mesurau newydd hyn, rhaid inni fod yn ofalus â'n cyllideb, yn enwedig o gofio'n bod ar fin colli arian Ewropeaidd wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd.
- 7.27** Mae'n bwysig peidio â gorbrisio anifeiliaid sy'n cael eu difa gan y bydd hynny'n cynyddu'r gost i'r trethdalwr ac yn lleihau'r cymhelliant i ffermwyr osgoi TB.
- 7.28** Ynghyd â'r mesurau newydd, rydym wedi gwneud yn siŵr ein bod yn diogelu'r cyllidebau Dileu ac iawndal.

Seilwaith Gwyrdd

- 7.29** Ein nod yw ceisio gwireddu'r cyfleoedd economaidd y mae adnoddau naturiol Cymru yn eu cynnig, gan sicrhau eu bod yn gadarn er mwyn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Gronfa Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd yn helpu i gyflawni'r ymrwymadau a chynnal y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

- 7.30** Bydd y rhaglen, trwy gyllideb o £3.2m yn cynnal amrywiaeth o brosiectau sy'n seiliedig ar natur a fydd yn mynd i'r afael â'r disgwyliad oes is, hyrwyddo twristiaeth a sbarduno mwy o fuddsoddi. Y prif feysydd buddsoddi fydd: adfer a gwella ar lefel y dirwedd; gweithredu dros iechyd ac ansawdd ardaloedd trefol; buddsoddi mewn twristiaeth a mynediad; a glanhau llygredd.
- 7.31** Er mwyn mynd i'r afael â'r waddol o iechyd gwael, mae'n amlwg bod angen i bawb ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am ei fywyd ei hun. Ymhlith y pethau y gall y Llywodraeth eu gwneud i helpu yn hyn o beth, profwyd bod darparu coridorau cerdded a beicio yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag afiechydon resbiradol, gordewdra a phroblemau iechyd meddwl. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dweud mai darparu seilwaith gwyrdd yw un o'r pethau mwyaf costeffeithiol y gall Llywodraeth ei wneud i wella canlyniadau iechyd.
- 7.32** Gofynnir i fudiadau esbonio'n glir yn eu ceisiadau am grant sut y byddent yn cyfrannu at nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, wrth wneud hynny, dangos eu bod am gyflawni manteision lluosog.

Cyfoeth Naturiol Cymru

- 7.33** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal mewn ffordd gynaliadwy, yn cael eu gwella mewn ffordd gynaliadwy ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.
- 7.34** Mae'r cyllid i CNC yn darparu cymorth grant i gynnal yr holl weithgareddau heblaw'r rheini sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag llifogydd a rheoli'r risg i'r arfordir. Defnyddir y gyllideb i gynnal rhaglenni, gan ysgwyddo'i rwymedigaethau statudol, cyflawni ei rôl fel rheoleiddwr, rhoi blaenoriaethau Gweinidogion ar waith a rhoi grantiau ar gyfer prosiectau amgylcheddol.
- 7.35** Ar ôl cymhwyso'r ad-daliadau a wnaed i'r prosiect Buddsoddi i Arbed, bydd gwaelodlin cymorth grant CNC yn gostwng £3m yn 2018-19 i £68m a £3m arall yn 2019-20 i £65m, sef gostyngiad o 5% yn ei refeniw bob blwyddyn. Byddwn yn gweithio gyda CNC i wneud yn siŵr ei fod yn parhau i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogion a'i ymrwymadau statudol a rheoleiddio ac yr un pryd yn sicrhau arbedion.

Tirweddau a hamdden awyr agored

- 7.36** Trwy hyrwyddo a chynnal tirweddau dynodedig, byddwn yn gwireddu'r buddiannau a ddaw o gynyddu cyfleoedd i fynd i fannau gwyrdd.
- 7.37** Mae grant strategol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ymwneud ag agweddau allweddol ar reoli adnoddau naturiol fel: hinsawdd sy'n newid; tai fforddiadwy; addysg; treftadaeth ddiwylliannol; datblygu cynaliadwy; llywodraethu corfforaethol; hamdden awyr agored; cynllunio a bioamrywiaeth. Mae gostyngiad o £0.5m yng nghyllideb refeniw 2018-19 a 2019-20, sef 5% o ostyngiad yn eu grant strategol y flwyddyn.

7.38 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i wneud arbedion ond gan ddiogelu'u swyddogaethau statudol a pharhau i gefnogi'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau hamdden awyr agored ac iechyd corfforol a meddyliol er lles cymunedau.

Amaethyddiaeth

7.39 Mae cyllidebau amaeth wedi'u diogelu ar y cyfan wrth inni barhau i fuddsoddi mewn mesurau sy'n cynnwys tagio anifeiliaid, Rhif Daliadau (CPH), EID Cymru a chynngor technegol. Mae'r gyllideb ar gyfer CPH wedi gostwng £0.5m yn 2018-19 a £0.4m yn 2019-20 oherwydd proffil gwariant llai.

7.40 Y CPH yw sylfaen nifer o systemau rheoli i adnabod ffermydd unigol. Un o'i brif ddibenion yw adnabod a thracio symudiadau gwartheg, defaid a geifr a moch, yn unol â rheoliadau Ewropeaidd. Bydd gwella'r ffordd y caiff ffermydd eu cofrestru yn golygu ein bod yn gallu ymateb yn gynt ac yn fwy effeithiol i unrhyw achosion o glefydau gan leihau'r perygl i iechyd y cyhoedd.

7.41 Mae cyllideb EID Cymru wedi cael ei hailalinio gyda £1.6m yn rhagor o gyfalaf wedi'i neilltuo iddi i barhau i ddatblygu'r system sy'n ein galluogi i dracio symudiadau defaid rhwng ffermydd, marchnadoedd a lladd-dai. Mae'r system yn golygu bod gan Gymru system adrodd ac olrhain symudiadau cadarn a modern ar gyfer ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i achos o glefyd.

7.42 Fel rhan o Gytundeb y Gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae £6m wedi'i neilltuo ar gyfer cynllun grant i ffermwyr ifanc dros ddwy flynedd i sicrhau bod gennym ffermwyr newydd i ymuno â'r diwydiant i ddiogelu dyfodol tymor hir y sector.

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cynllun Datblygu Gwledig

7.43 Mae'r gyllideb ddomestig o £9.7m ar gyfer gweinyddu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) wedi'i diogelu ar y lefelau presennol i reoli taliadau uniongyrchol o £220m y flwyddyn i ffermwyr.

7.44 Taliadau Gwledig Cymru sy'n gweinyddu cynllun taliadau uniongyrchol y PAC a chynlluniau Amaeth-amgylcheddol a Choedwigaeth y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae hefyd yn rheoli pob agwedd ar achredu ceisiadau fel asiantaeth dalu, yn unol â'r rheoliadau Ewropeaidd. Mae taliadau'r cynlluniau'n bwysig i gynnal swyddi ar ffermydd ac yng nghadwyni cyflenwi amaethyddiaeth.

7.45 Mae'n bwysig ein bod yn mynd ati ar unwaith i ddefnyddio'r £5m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2018-19 a 2019-20 a neilltuir ar gyfer datblygu TGCh ein systemau taliadau gwledig i sicrhau eu bod yn dal i weithio ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

7.46 Cynllun amflwydd sy'n ymateb i'r galw yw Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Fe'i ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Gall lefelau gweithgarwch amrywio yn ôl nifer y cynlluniau sy'n agor mewn unrhyw gyfnod ac amcangyfrif o faint y galw. Mae angen i'n cyllidebau domestig, sy'n cael eu cyd-ariannu, fod yn

hyblyg a rhaid inni sicrhau ein bod yn cael y gorau o'n gwariant ac yn ennyn cymaint ag y medrwn o gyfraniad gan yr UE dros gyfnod y rhaglen 2014-2020.

7.47 Mae cyllideb refeniw'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi'i hailbroffilio a disgwylir bydd arbedion o £0.2m yn 2018-19 a £6m yn 2019-20 yn cael eu sicrhau. Mae cyllid cyfalaf ychwanegol o £5.4m wedi'i neilltuo dros y cyfnod o dair blynedd i gyfateb i broffil cyfalaf disgwyliedig y Cynllun ac i sicrhau bod yr holl arian oddi wrth yr UE yn cael ei ddefnyddio.

Bwyd

7.48 Rydym yn cefnogi'r diwydiant i ddatblygu ac i symud i gyfeiriad newydd, gan groesawu technoleg newydd a chynnydd mewn ymchwil a datblygu i roi Cymru ar flaen y gad o ran cynhyrchu bwyd.

7.49 Mae'r gyllideb o £4.7m wedi'i chynnal ac yn talu am roi'r ymrwymadau a geir yn strategaeth *Tuag at Dwf Cynaliadwy* ar waith trwy ddatblygu ac ehangu cynhyrchu bwyd a'r diwydiannau bwyd a diod yng Nghymru. Rydym yn dal i weithio gyda'n partneriaid ym mhob rhan o'r diwydiant i adeiladu ar gryfderau'r diwydiant ac ychwanegu at werth bwyd Cymru ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi.

Y Môr

7.50 Mae cyllideb y môr a physgodfeydd yn ymdrin â sbectrwm eang o weithgareddau, yn amrywio o wyddorau pysgodfeydd ac ymchwil, polisi'r môr a physgodfeydd a chynnal rhaglenni â blaenoriaeth i swyddogaethau gorfodi ac ariannu rhai partneriaid (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru).

7.51 Rydym yn datblygu ystod eang o fentrau polisi mewn cydweithrediad clos â rhanddeiliaid a phartneriaid i wireddu'r weledigaeth hon. Mae hyn yn cynnwys datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru, pennu polisi ar gyfer trwyddedau morol, parhau i roi Cyfarwydddeb Fframwaith Strategaeth y Môr ar waith, rheolaeth gynaliadwy ar ein pysgodfeydd a chyfrannu at rwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig sy'n cael eu rheoli'n dda. Mae £0.5m wedi cael ei ychwanegu at y gyllideb ar gyfer 2018-19.

Datgarboneiddio ac ynni glân

7.52 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnig fframwaith llywodraethu cadarn sy'n helpu i fonitro cynnydd a helpu i gyrraedd y targedau lleihau allyriadau. Rydym yn datblygu'r rheoliadau ar gyfer pennu targedau allyriadau a chyllidebau carbon. Bydd hynny'n caniatáu inni lywio a gwerthuso'r hyn a wneir yn well a rhoi sicrwydd ac eglurder i fuddsoddwyr a busnesau. Yn y Gyllideb hon, rydym yn dyrannu £1m yn ychwanegol i gefnogi'r agenda hon, sy'n golygu y byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £2.6m yn 2018-19 a hefyd yn 2019-20.

7.53 Er mwyn datgarboneiddio Cymru, ni fydd gweithredoedd Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun yn ddigon a bydd angen i bartneriaid eraill gyfrannu. Wrth inni

ddatblygu'r rhaglen ymhellach, byddwn yn cynnal rhaglen o gyfathrebu allanol i gael eraill i'n helpu i godi ymwybyddiaeth ac i helpu eraill i weithredu.

7.54 Mae Twf Gwyrdd Cymru'n dangos sut y mae'n meddylfryd yn helpu i wneud i'n cyllidebau fynd ymhellach ar draws Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â lleihau allyriadau, bydd ein buddsoddi'n galluogi'n cyrff cyhoeddus i arbed arian trwy wario llai ar filiau ynni. Gellir defnyddio'r arbedion a wneir i ad-dalu'r buddsoddiadau, gan greu cronfa sy'n ailgylchu arian i fuddsoddi ymhellach i arbed ynni.

Treth gwarediadau tirlenwi

7.55 Caiff y gyllideb weithredol o £1.5m ar gyfer Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei hychwanegu at ein cyllideb o 2018-19. Cynllun grant yw hon, a fydd yn cefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol mewn ardaloedd lle gwelir llawer o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Caiff y gyllideb ei dyrannu i drydydd parti, a benodir drwy ymarfer caffael, ac a fydd yn dosbarthu'r cyllid yn uniongyrchol i brosiectau.

Deddfwriaeth

Deddf y Sector Amaethyddiaeth 2014

7.56 Mae Deddf y Sector Amaethyddiaeth 2014 yn diogelu amodau cyflogaeth a lwfansau sy'n unigryw i'r sector amaethyddiaeth. Ystyrir bod y gefnogaeth hon yn angenrheidiol oherwydd natur arbennig cyflogaeth amaethyddol, gan gynnwys gwaith tymhorol, llawer o gyflogaeth dros dro a'r defnydd o lety ar ffermydd. Sefydlwyd Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel) yn 2016 o dan y Ddeddf. Mae dwy ran i gylch gwaith y Panel, sef: a) drafftio gorchmynion ar gyfer cyflogau amaethyddol, ymgynghori arnynt a'u cyflwyno i gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, a b) hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth. Mae gorchmynion cyflogau amaethyddol yn pennu cyfraddau cyflog gofynnol mewn chwe gradd ar gyfer gweithwyr amaethyddol yn unol â'u cymwysterau a'u profiad, gan annog datblygiad gyrfa. Mae'r Panel wedi sefydlu is-bwyllgor statudol ar Sgiliau a Hyfforddiant sy'n gweithio i asesu'r dystiolaeth sydd ar gael ac sydd ei hangen er mwyn gwella'r ddarpariaeth o sgiliau yn y sector. Bwriad gwaith y Panel a'r is-bwyllgor yw helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant a'n cymunedau drwy wneud yn siŵr bod ein gweithlu yn cael cyflog da, yn cael yr holl wybodaeth ac yn cael eu hysgogi. Mae'r gost sydd ynghlwm â'r Ddeddf yn cynnwys sefydlu a gweithredu'r Panel ac wedi'u cynnwys yn llinell wariant 2865.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

7.57 Cafodd y rhan fwyaf o'r Ddeddf ei rhoi ar waith yn 2016 / dechrau 2017, ac mae bellach yn rhan annatod o gyllideb y Gyfarwyddiaeth Gynllunio. Dim ond y gwaith o weithredu darpariaethau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol a gaiff eu cynnwys yng nghostau yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Nid yw'r costau sydd ynghlwm â chyflwyno ceisiadau uniongyrchol dewisol i Weinidogion Cymru wedi cael eu cynnwys, gan mai cost

unigol yw hwn pan ddynodir Awdurdod Cynllunio Lleol fel un sy'n perfformio'n wael. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y bydd y gost hon yn £96,000 fesul dynodiad. Mae'r darpariaethau eraill sydd i'w gweithredu gyda chostau cysylltiedig i Weinidogion Cymru yn cynnwys: llunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; darparu cymorth ariannol i Awdurdodau Cynllunio Lleol sydd wedi ceisio cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Datblygu Strategol; a'r gallu i gyflwyno ceisiadau cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru pan fo awdurdod cynllunio lleol wedi'i ddynodi fel un sy'n perfformio'n wael – ceisiadau uniongyrchol dewisol yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Caiff yr holl arian ar gyfer rhoi Deddf Cynllunio (Cymru) ar waith ei dalu drwy gyllideb costau rhedeg presennol y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac o dan gyllideb y rhaglen Cynllunio a Rheoleiddio o fewn llinell wariant 2250.

Crynodeb

- 7.58** Mae cyllideb yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn dal i fod yn un anodd yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yng nghyd-destun ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r pwysau ar gyllidebau refeniw Cymru yn parhau o ganlyniad i agenda gyni Llywodraeth y DU, ond lle medrwn mae gostyngiadau i gyllidebau refeniw yn cael eu rheoli er mwyn cadw eu heffaith ar wasanaethau'r rheng flaen mor fach â phosib, a sicrhau bod ein buddsoddiadau'n parhau i adlewyrchu'n blaenoriaethau, fel y'u disgrifir yn *Ffyniant i Bawb*.
- 7.59** Mae'r gyllideb yn sicrhau hefyd y byddwn yn parhau i weithio'n glos â'n partneriaid darparu fel Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, WRAP, Hybu Cig Cymru, sy'n allweddol i'n helpu i ddatblygu'n polisïau a chynnal y rhaglenni er lles pobl Cymru.

Pennod 8 - Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

- 8.1** Prif nod MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yw darparu llywodraeth ddatganoledig effeithiol ac atebol. Mae'r gyllideb yn cynnwys amrywiaeth eang o swyddogaethau, gan gynnwys costau rhedeg Llywodraeth Cymru (staff, swyddfa a TGCh), costau gwasanaethau canolog eraill, a gwasanaethau a rhaglenni gwybodaeth y Llywodraeth gyfan. Mae hefyd yn cynnwys cyllid i gyflawni canlyniadau sy'n gyfrifoldeb naill ai i'r Prif Weinidog neu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, megis Cysylltiadau Rhyngwladol, Datblygu Rhyngwladol a Buddsoddi i Arbed.
- 8.2** Mae'r MEG yn cefnogi portffolios i gyflawni eu hymrwymiad i wella ansawdd bywyd pobl Cymru trwy gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* a'r strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*.


Cyllideb Ddrafft 2018-19

- 8.3** Yn 2018-19, mae MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn £300m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £285m o adnoddau, £12m o gyfalaf a £3m o wariant a reolir yn flynyddol (AME).
- 8.4** Y cyllid dangosol ar gyfer 2019-20 yw £274m o adnoddau, £12m o gyfalaf a £3m o AME.
- 8.5** Cyllid cyfalaf dangosol 2020-21 yw £12m.

Cyfrannau ariannu

- 8.6** Mae'r siart isod yn dangos dyraniad cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf 2018-19 ar draws prif weithgareddau'r MEG.

Dosbarthiad Cyllideb DEL 2018-19 - ac eithrio AME



8.7 Mae dwy ran o dair o gyllideb MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cael eu defnyddio i ariannu costau tâl gweision sifil a defnyddir dwy ran o dair o weddill y gyllideb i ariannu costau rhedeg Llywodraeth Cymru (yn bennaf costau swyddfeydd Llywodraeth Cymru, systemau TGCh corfforaethol a gwasanaethau canolog megis cyfieithu, hyfforddi staff, rheoli cofnodion a diogelwch). Mae'r gyllideb AME yn ariannu rhwymedigaeth pensiynau tybiannol ynghyd â chostau etifeddol ymddeoliad cynnar.

Costau staff Llywodraeth Cymru

8.8 Wrth reoli'r gostyngiadau sy'n ofynnol oherwydd cyni parhaus, canolbwyntiwyd ar ddiogelu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth fel y'u nodir yn *Ffyniant i Bawb*, trwy gadw lefelau staffio mewn meysydd allweddol. Rydym yn gostwng £5.5m ar y gyllideb ar gyfer costau staff yn 2019-19 a £8.4m pellach yn 2019-20.

8.9 Er y bydd y gostyngiadau'n debygol o arwain at leihau maint gweithlu Llywodraeth Cymru, bydd graddfa ac amseriad hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau, yn enwedig cyfradd trosiant staff. Felly nid oes modd amcangyfrif graddfa lawn ac amseriad unrhyw ostyngiadau mewn staffio.

8.10 Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyflwyno'r gyllideb weithredol ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru gyda dyraniad o £4.5m ar gyfer 2018-19 a £3m yn 2019-20 ar gyfer costau gweithredu a chostau rhedeg y corff newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ffordd newydd o ymdrin â pholisi trethi yng Nghymru, yn seiliedig ar ddulliau gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r

egwyddor bwysig y dylai trethi Cymru gyfrannu'n fwy uniongyrchol at nod y Ddeddf o greu Cymru fwy cyfartal. Ymhellach, disgwylir i geisiadau ar gyfer cyllid o dan Gynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cael ei sefydlu ochr yn ochr â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ddangos eu bod yn cydfynd â nodau'r Ddeddf.

8.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer trethi datganoledig, y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bwriedir i'r cyfraddau a'r bandiau fod yn gyson â'n hegwyddorion polisi trethi, gan gynnwys codi refeniw mewn ffordd mor deg â phosib, a chyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru gan gynnwys cefnogi swyddi a thwf.

Costau rhedeg refeniw

8.12 O fewn costau rhedeg ehangach Llywodraeth Cymru, rydym wedi ceisio diogelu cyllidebau sy'n cefnogi caffael (Gwerth Cymru ac e-Gaffael) a hefyd ddatgarboneiddio yn gysylltiedig ag ystad swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cymru.

8.13 Mae'r gostyngiadau yn y gyllideb yn cael eu llunio i effeithio cyn lleied â phosib ar swyddogaethau statudol, megis gwasanaethau cyfieithu (i sicrhau bod modd inni gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg), rheoli cofnodion, ac iechyd a diogelwch.

8.14 At ei gilydd y gostyngiad i gostau rhedeg heb fod yn gostau staff yw £1.6m yn 2018-19 a £3.9m bellach yn 2019-20.

8.15 Bydd angen i ni weld sut y gallwn ddarparu systemau TGCh mwy effeithlon a lleihau maint yr ystad weinyddol (swyddfeydd).

8.16 Gellir gweld ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy trwy bolisiâu ar gaffael agored, teg a moesegol, sy'n sicrhau bod y nwyddau yr ydym yn eu prynu yn dod o ffynonellau adnewyddadwy, a hefyd o fentrau ynni a lleihau carbon ar draws yr ystad weinyddol sy'n lleihau'r gofynion cyffredinol o ran pŵer ac yn ceisio cynyddu'r gyfran o ynni adnewyddadwy yr ydym yn ei ddefnyddio. Mae cyfanswm gros allyriadau CO2 wedi gostwng rhyw 40% rhwng 2011-12 a 2016-17, ac mae'r defnydd o ynni (trydan a nwy) wedi gostwng tua 30%. Yn ystod yr un cyfnod cafwyd gostyngiad o ryw 15% yng nghyfanswm y gwastraff, mae cyfran y gwastraff sydd wedi'i ailgylchu/ei aildefnyddio wedi cynyddu o 67% i 70%.

8.17 Mae'r gyllideb hon yn cynnwys ein pwerau benthyg newydd ac mae'r benthygiad yn cael ei ad-dalu o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu gyda dyraniad o £0.4m yn 2018-19 a £2.4m yn 2019-20. Yn ogystal, rydym wedi trosglwyddo £1.6m o MEG yr Economi a'r Seilwaith, gan adlewyrchu trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros rwymedigaethau'r Gronfa Benthygiadau Cenedlaethol.

Costau rhaglenni refeniw

- 8.18** Mae'r gyllideb ar gyfer rhaglenni refeniw'n ariannu gweithgareddau Llywodraeth Cymru dramor, rheoli cyllid Ewropeaidd yng Nghymru, a gwasanaethau gwybodaeth ac ystadegol Cymru gyfan. Mae hyn yn unol â'n strategaeth, *Ffyniant i Bawb*, sy'n ceisio adeiladu Cymru unedig a chysylltiedig.
- 8.19** Fel rhan o ddull gweithredu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi ceisio blaenoriaethu a diogelu buddsoddiad yn mewn meysydd sy'n darparu gwasanaethau naill ai: yn uniongyrchol i'r cyhoedd (e.e. Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru); neu i'r sector cyhoeddus ehangach (e.e. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gwasanaethau gwybodaeth ystadegol a daearyddol). Rydym yn cynnal cyllid ar gyfer cyrff neu wasanaethau allanol naill ai am eu bod newydd gael eu sefydlu fel swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Awdurdod Cyllid Cymru, neu am fod cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu iddynt megis Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru neu'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.
- 8.20** Lle bo cyllid wedi'i dorri, byddwn yn ceisio sicrhau fod unrhyw ostyngiadau i gostau staff yn effeithio cyn lleied â phosib ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen. Bydd unrhyw ostyngiadau i gostau rhedeg yn canolbwyntio ar wasanaethau mewnol nad ydynt yn hanfodol, gan gynnwys parhau i leihau maint yr ystad weinyddol, a fydd yn arwain at fantais bellach o leihau effaith carbon yr ystad.
- 8.21** Bydd ymadael â'r UE yn newid sylweddol i'n gwaith rhyngwladol. Fel rhan o *Ffyniant i Bawb*, rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod Cymru'n parhau i fod yn wlad agored sy'n chwarae rhan lawn yn Ewrop ac ar lwyfan y byd. Felly er mwyn hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd rydym yn gwarchod y cyllid ar gyfer Datblygu Rhyngwladol a Pherthynas Ryngwladol yn y Gyllideb Ddrafft hon. Fel rhan o Gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, rydym hefyd yn darparu £5m ychwanegol dros ddwy flynedd i baratoi ar gyfer Brexit.
- 8.22** Mae rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn elfen allweddol o weithgarwch Llywodraeth Cymru i ddangos ei chyfrifoldeb byd-eang, a bod yn unedig a chysylltiedig. Rydym yn ariannu Hub Cymru Affrica sy'n gweithio'n benodol gydag Affricanwyr ar wasgar a grwpiau anabledd i sicrhau eu cyfranogiad llawn yn y rhaglen ehangach. Rydym hefyd yn hybu cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru ac Affrica gan helpu i adeiladu cydlyniant cymunedol gartref.

Buddsoddi i Arbed ac Arloesi i Arbed.

- 8.23** Mae gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed ran bwysig o ran hybu a hyrwyddo arferion newydd i wneud arbedion cost ar draws gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru ac i hyrwyddo agenda gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ers i'r Gronfa gael ei chyflwyno buddsoddwyd dros £170m mewn dros 160 o brosiectau a hynny er budd pob rhan o'r sector cyhoeddus.
- 8.24** Mae'r gyllideb Buddsoddi i Arbed yn ailgylchu cyllid ac mae'n cynnwys trosglwyddiadau o'r MEG Gwasanaethau Canolog i MEG y portffolios, yn dibynnu ar lefel ad-daliadau a dyraniadau. Mae trosglwyddiad net o £-1.6m (£-

0.1m yn 2019-20) gyda MEGs eraill yn deillio o fuddsoddiadau ac ad-daliadau Buddsoddi i Arbed.

8.25 Mae cyllid prosiectau ar gyfer 2018-19 yn cynnwys cyllid ar gyfer rhwydwaith y gymuned argyfwng, mynediad at fferyllfeydd, cynhyrchu incwm Amgueddfa Cymru a phrofion addasu ar-lein ym maes addysg.

8.26 Ym mis Chwefror, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i bartneriaeth â NESTA, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddarparu Arloesi i Arbed. Mae gan y gronfa arloesi hon gyllideb o £5m yn 2017-18, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda nifer o sefydliadau sy'n derbyn cyllid i'w helpu i ymchwilio, datblygu a phrofi syniadau cyn iddynt ddod yn gymwys am gyllid ad-daladwy i gefnogi'r gwaith o roi eu cynigion ar waith yn llawn.

Costau Cyfalaf

8.27 Mae'r gyllideb cyfalaf yn ariannu gwaith cynnal a chadw a disodli asedau gweinyddol, yn bennaf gwaith ailwampio a thrwsio swyddfeydd a darparu offer neu feddalwedd TGCh newydd.

Deddfwriaeth

8.28 Mae'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn ariannu dwy Ddeddf:

- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru); a
- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).

8.29 Mae'r MEG hwn hefyd yn ariannu Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

8.30 Yn ôl yr amcangyfrif gwreiddiol, roedd y rhain yn dod i gyfanswm o rhwng £4.8m a £6.3m dros y cyfnod 2016-17 i 2018-19 (nid yw hyn yn cynnwys cost rhoi'r gorau i gasglu'r dreth dirlenwi a threth dir y dreth stamp gan CThEM yng Nghymru). Hyd yn hyn mae'r costau yn cyd-fynd â'r amcangyfrifon a ddarparwyd yn yr Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol perthnasol.

8.31 Mae effaith y polisi trethi ar Safonau'r Gymraeg, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Agenda Trechu Tlodi wedi cael ei hasesu fel rhan o'r asesiad effaith cyffredinol a gynhaliwyd ar gyfer y Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi. Cyhoeddwyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer y Ddeddf Treth Trafodiadau Tir cyn trafodion Cyfnod 3.

Crynodeb

8.32 Er mwyn cyflawni'r gostyngiadau i gyllidebau staff a chostau rhedeg a nodir yn y gyllideb hon bydd angen ailbennu ffocws ein gweithlu. Bydd hyn yn gofyn am drafod â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i helpu i lunio ein gweithlu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth yn y ffordd orau.

Atodiad A: Costau deddfwriaeth a ddaeth i rym yn ystod y cyfnod gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft

Deddfau	Hyd y cyfnod gweithredu	Camau sy'n ariannu'r ddeddfwriaeth	2016-17 Cost RIA	2016-17 Cost wirioneddol	2017-18 Cost RIA
Iechyd, Llesiant a Chwaraeon	e.e. Ebrill 2017 - Medi 2020				
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016	2016 –Ebrill 2019	Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy	£2.126m	£282,000*	£1.77m
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017	Gorffennaf 2017 - Mawrth 2022	Gwella Iechyd a Gweithio Iach	-	-	£198,400
Cyllid a Llywodraeth Leol					
Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**	Tan Ebrill 2018, pan ddaw Awdurdod Cyllid Cymru i rym	Trysorlys Cymru	£4.8m - £6.3m y costau gweithredu dros y cyfnod 2016-17 to 2018-19 A CThEM 50,000	Gweithredu £1.3m A CThEM 50,000	£4.8m - £6.3m y costau gweithredu dros y cyfnod 2016-17 i 2018-19 A CThEM 780,000
Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016**					
Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017**					
Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017	Tan Ebrill 2018, pan ddaw Awdurdod Cyllid Cymru i rym	Trysorlys Cymru	-	-	-

Parhau

Deddfau	Hyd y cyfnod gweithredu	Camau sy'n ariannu'r ddeddfwriaeth	2016-17	2016-17	2017-18
	Rhagolwg o'r gost	Cost RIA	Cost RIA	Cost wirioneddol	Cost RIA
Iechyd, Llesiant a Chwaraeon					
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016	£1.5m	£1.77m	Tua £1.5m	£1.77m	
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017	£198,400	£727,700	£42,300	£374,000	£11,500
Cyllid a Llywodraeth Leol					
Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**	Gweithredu £3.5m	£4.8m - £6.3m y costau gweithredu dros y cyfnod 2016-17 i 2018-19	Gweithredu £1.5m	-	-
Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016**					
Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017**	A CThEM 780,000	A CThEM 120,000	A CThEM 120,000		
Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017	-	£1.5m	£1.5m	£1.5m	£1.5m

* Yn sgil y penderfyniad i weithredu fesul cam, mae'r costau i reoleiddiwr y gwasanaeth wedi'u gwasgaru yn hytrach na'u canolbwyntio yn y flwyddyn gyntaf, fel y gwelir yn yr RIA. Mae'r costau ar gyfer 2018-19 yn rai dangosol: rhagwelir y bydd gofyn am lefel ariannu debyg i 2017-18 er mwyn parhau i roi'r ddeddf ar waith, ond nid yw'r rhain wedi'u meintoli'n llawn eto. Bydd costau 2019-20 yn cael eu hystyried yn y man.

** Yn 2017-18 a 2018-19, bydd cyfanswm costau gweithredol o £5m (£1m yn 2017-18 a £4m yn 2018-19). Disgwylir i'r gost weithredol o 2018-19 ymlaen gostio £4m y flwyddyn. Ni wnaeth yr amcangyfrif RIA ar gyfer 2017-18 ddarpariaeth ar gyfer cyllideb weithredol yn 2017-18 ond fe wnaeth ddarpariaeth ar gyfer £4m y flwyddyn o 2018-19.

Deddfau	Hyd y cyfnod gweithredu	Camau sy'n ariannu'r ddeddfwriaeth	2016-17 Cost RIA	2016-17 Cost wirioneddol	2017-18 Cost RIA
Cymunedau a Phlant					
<u>Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016</u>	Ionawr 2016 - Ebrill 2019	Datblygu a Gweithredu Polisi (Cam gweithredu a BEL)	£140,000	-	£65,000
Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	Hydref 2015 – Hydref 2021	Datblygu a Gweithredu Polisi	£179,387	£331,500	£331,500
Yr Economi a'r Seilwaith					
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016	2016 - 2021	Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol	£230,000	£220,887	220,000
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig					
Ddeddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014	Gorffennaf 2014 - Gorffennaf 2018	Datblygu a chyflwyno polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr	£30,000	£55,000	£15,000
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	2016 - 2020	Cynllunio a Rheoleiddio	£180,238	£160,278	£40,922
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	2016 - 2019	Datblygu a gweithredu polisi'r newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon a Thwf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd	£69,000	£135,511	£33,000

Parhau

Deddfau	2017-18 Rhagolwg o'r gost	2018-19 Cost RIA	2018-19 Cost wedi'i chyllidebu	2019-20 Cost RIA	2019-20 Cost wedi'i chyllidebu
Cymunedau a Phlant					
<u>Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016</u>	-	£35,000	£140,000	£20,000	£65,000
Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	£331,500	£331,500	£331,500	£331,500	£331,500
Yr Economi a'r Seilwaith					
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016	£200,000	£197,000	£217,000	£197,000	£197,000
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig					
Ddeddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014	£150,000	£15,000	£150,000	£10,000	£150,000
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	£79,785	£30,222	£68,598	£87,095	£73,871
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	£310,380	£75,000	£139,000	£15,000	£140,000

Atodiad B: Geirfa

Cam Gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn: www.llyw.cymru/cyllideb
Cwmpasoedd	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant.
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.
Cyfalaf	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a reffeni.
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Terfyn y gyllideb amflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant.
Dibrisiant	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.
Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	Mae trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partion y gellir eu defnyddio. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys.

<p>DEL Adnoddau Ariannol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')</p>	<p>Mesurau croniadau sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft cyflog, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.</p>
<p>Prif Grŵp Gwariant (MEG)</p>	<p>Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir saith Prif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd, Llesiant a Chwaraeon; Llywodraeth Leol; Cymunedau a Phlant; yr Economi a'r Seilwaith; Addysg; yr Amgylchedd a Materion Gwledig; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.</p>
<p>DEL Adnoddau Anghyllidol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')</p>	<p>Mesurau croniadau a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio DEL adnoddau anghyllidol i gyllido gwario DEL adnoddau cyllidol.</p>
<p>Derbyniadau</p>	<p>Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.</p>
<p>Cyllidebu adnoddau</p>	<p>Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.</p>
<p>Adnoddau (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw')</p>	<p>Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.</p>
<p>Maes Rhaglen Wariant (SPA)</p>	<p>O fewn pob Prif Grŵp Gwariant caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu.</p>
<p>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</p>	<p>Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.</p>

Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.
CNLIC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru